

ECO'R WYDDFA

RHIF 318 NADOLIG/IONAWR 2005 PRIS 40c

Atodiad Cyfarchion Nadolig hysbysebwr: LLANRUG BETHEL, CAEATHRO PENISARWAUN A WAUNFAWR

MAE cymuned wedi dod at ei gilydd i gefnogi gŵr o Batagonia a gafodd ei yrru o'u pentref gan yr awdurdodau.

Roedd Luis Austin wedi bwriadu treulio'r Nadolig yn y Waunfawr hefo'i gariad, Heddus Gwynedd, ond ar ôl ychydig wythnosau yn y pentref, ac er bod ganddo'r visa cywir, cafodd ei yrru yn ôl i'r Ariannin.

Dywed ei gefnogwyr yn y pentref ei fod wedi ei drin yn sâl iawn tra'n ymweld â gwlad ei gyn-dadau, ac o'r oherwydd daeth nifer o bobol y pentref at ei gilydd i geisio helpu. Maent wedi sefydlu pwyllgor i drefnu bod Luis yn medru dychwelyd yn ôl i Gymru - a chael gwell croeso y tro nesa.

Fe ddechreuodd y cyfan ddiwedd Hydref pan laniodd Luis, sydd yn siarad Cymraeg a Sbaeneg ond dim Saesneg, yn maes awyr Gatwick. Cwestiynwyd ef yn galed gan Swyddogion Mewnffudo am dros bum awr wrth iddyn nhw holi beth oedd ei fwriad dros ddod i Gymru. Ar ôl i Aelod Seneddol Caernarfon, Hywel Williams, ymyrryd cafodd ganiatâd i aros tan 2 Rhagfyr. Yna fe dderbyniodd llythyr yn dweud y byddai'n rhaid iddo adael y wlad ar ddydd Mawrth, 9 Tachwedd, ac yn ôl i'r Ariannin y bu'n rhaid iddo fynd.

Meddai Bryn Roberts o Gwynfryn Cymunedol, 'Roedd lot o bobol Waunfawr yn flin am hyn felly mi ddaeth tua chwech ohonan ni at ein gilydd rownd y bwrdd a dweud "Alla' nhw ddim gwneud hyn iddo fo". Roedd o yma'n gyfreithlon; wedi bod yma ers wythnos neu ddwy ac wedi cyfarfod rhai o bobol y pentref a mwynhau ei

Gwell CROESO y tro nesa!



hun yn ddi-lol. Mae o'n siarad Cymraeg a Sbaeneg - a mae ei gyn-dadau o Ferthyr - felly roedd y bobol yma o Lundain yn hel Cymro o'ma, mewn ffordd. Roedd rhaid i ni sefyll i fyny a gwneud rhywbeth.'

Trefnwyd ocsiwn yn Nhafarn Snowdonia, Waunfawr, gydag eitemau gan yr actor Rhys Ifans a thîm rygbi'r Scarlets, ac roedd llythyr gan yr awdures Kate Roberts ymysg yr eitemau gafodd eu gwerthu. Ar y noson fe godwyd £2,100, ac ers hynny mae eraill wedi cyfrannu at yr apêl. Mae trefniadau hefyd ar droed i gynnal gig ddiwedd y mis gyda nifer o fandiau ac artistiaid yn cymryd rhan - yn

cynnwys Meinir Gwilym a Mim Twm Llai.

Bwriad yr apêl yw prynu tocyn a thalu costau Luis i ddod yn ôl i ymweld â'r ardal, a chael cyfreithiwr yn barod i ddadlau ei achos os caiff drafferthion unwaith eto. Bydd unrhyw arian dros ben yn cael ei roi i elusen.

Mae'r pwyllgor hefyd yn gobeithio cael cefnogaeth cynghorau cymuned, Cyngor Sir Gwynedd a'r Cynulliad i lunio llythyr yn gwahodd Luis yn swyddogol i ymweld â Waunfawr a'r fro.

Meddai Bryn Roberts, 'Mi roedd y boi wedi gwerthu ei foto-beic i

fedru fforddio'r tocyn i ddod yma ac wedi safio pres i ddod draw yma. Ma'n warthus 'i fod o wedi cael ei drin fel hyn a mi ddyla ni sefyll i fyny i ddangos i'r awdurdodau na alla nhw ddim trin pobol fel hyn - dim yn ein henw ni.'

Dywed Cadi Jones, mam Heddus, bod ganddi gywilydd o'r hyn ddigwyddodd - yn enwedig o ystyried y cysylltiad agos rhwng Cymru a Phatagonia.

'Beth fydd effaith y digwyddiad trist hwn ar Gymry Patagonia pan ddônt i glywed am yr hanes?' meddai. 'Fel Cymraes sydd wedi bod ym Mhatagonia un waith, ac wedi derbyn croeso twymgalon gan y bobl yno, a mam Heddus, mae gen i gywilydd mawr fod Luis wedi cael ei drin mor annheg. Felly, fel teulu Heddus, rydym eisiau sicrwydd na fydd unrhyw ymwelydd â chysylltiadau Cymreig o Batagonia byth eto yn cael anhawster i ddod i'n gwlad ni am wyliau.'

Mae hi'n annog pobl sydd eisiau lleisio barn, a'r rhai sydd eisiau gweld cyswllt cryf rhwng y ddwy wlad yn parhau, i anfon llythyrau at Peter Hain AS, Ysgrifennydd Gwladol Cymru; Des Brown AS, gweinidog y llywodraeth; Charles Clarke, yr Ysgrifennydd Cartref a'r Aelod Seneddol lleol, Hywel Williams.

Bydd Cyngerdd Apêl Luis yn cael ei gynnal yng nghlwb cefnogwyr pêl-droed Caernarfon ar nos Fercher, 29 Rhagfyr. Tocynnau yn £7 o Palas Print, tafarn Waunfawr neu Recordiau Cob. Hoffai Heddus a Luis ddiolch o galon i bawb sydd wedi eu cefnogi yn yr wythnosau diwethaf.



Nadolig Llawen i bawb yn y fro



Plant ysgol feithrin Deiniolen ar ddiwrnod Plant Mewn Angen.

ECO'R WYDDFA

RHIF 318
DOLIG/IONAWR 2005

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd
Cibyn, Caernarfon

Cydnabyddir cefnogaeth
Bwrdd yr Iaith Gymraeg
i'r cyhoeddiad hwn.

SWYDDOGION A GOHEBWYR

Tim Golygyddol

d/o PALAS PRINT
7B STRYD PLAS
CAERNARFON

Ffôn/Ffacs (01286) 674631
eco@palasprint.com

Eirian James (01286) 674631
Bryn Jones (01286) 674405
Llinos Jones (01286) 871820
Richard Thomas (01286) 871954
Sion Williams (01286) 871858
Alun Ellis (01286) 650761

CADEIRYDD Y PWYLLGOR GWAITH

Arwel Jones

GOLYGYDD CHWARAEON

Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl, Bethel.
(01248) 670115

FFOTOGRAFFWR

Gwyndaf Hughes, Glasgoed,
Llanrug (677263)

TREFNYDD HYSBYSEBION

John Roberts, Bedw Gwynion, Ffordd
Glanffynnon, Llanrug (675605)
e-bost: johnroberts@prjr.wales.com

TREFNYDD BWNDELU

Jean Jones, Cesail y Mynydd,
Deiniolen (871550)

TREFNYDD ARIANNOL

Goronwy Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD GWERTHIANT POST

Olwen Hughes, Eithinog, 14 Afon
Rhos, Llanrug (674839)

TREFNYDD PLYGU

Shioned Griffith (650570)

GOHEBWYR PENTREFI

BETHEL: Geraint Elis, Cilgeran
(01248) 670726

BRYNREFAIL: Mrs Lowri Prys Roberts-
Williams, Godre'r Coed (870580)

CAEATHRO: Clive James, Hafan, Bryn
Gwna (677438)

CEUNANT: Trystan a Sioned Larsen,
Bodafon, Ceunant (650799)

CWM-Y-GLO: Mrs Iris Rowlands,
Glanrafon (872275)

DINORWIG: Marian Jones, Minallt,
7 Bro Eilidir, Dinorwig (870292)

DEINIOLLEN: Mrs Margaret Cynfi Griffith,
(870304)

LLANBERIS: Gwyneth ac Eifion Roberts,
Ŵnny-y-Gwynnt (870740)

LLANRUG: Eryl Roberts, 9 Bryn Moelyn
(875384)

NANT PERIS: Llinos Jones, 6 Nant
Flynnon (871820)

PENISARFAYN: Mrs Ann Evans, Sycharth
(872407)

TAN-V-COED: Miss Anwen Parry,
Ael-y-Bryn (872276)

WAUNFAWR: Mrs Nan Roberts, Pantafon,
Waunfawr (650570)

Y RHIFYN NESAF

Bunydd i law'r
golygyddion perthnasol
NOS LUN, 17 IONAWR

Os gwelwch yn oed
Daw'r rhifyn nesaf o'r wasg
NOS IAU, 27 IONAWR

DYDDIAD A LLEOLIAD PLYGU'R ECO

Trefnydd Plygu: Mrs Shioned Griffith, Pantafon, Waunfawr. (01286) 650570

Rhifyn	Dyddiad Copi	Dyddiad Plygu	Ble	Cysylltu â	Rhif Ffôn
Chwefror	17 Ionawr	27 Ionawr	Waunfawr	Mrs Nan Roberts	650570

Llythyrau

Y Fedw
Llanddeiniol
Llanrhystud
Ceredigion
SY23 5DT

Annwyl Olygydd

BLEIDDIAID ERYRI

Tybed a oes rhywrai o blith eich darllenwyr sy'n gwybod am hanesion, chwedlau neu draddodiadau am fleiddiaid yng nghylch Eco'r Wyddfa? Neu, efallai fod acw enwau caeau, nentydd, creigiau ac ati, megis Cae'r Blaidd, Gwern Bleiddiau, Nantfleiddast, Bleiddbwl neu Greigiau'r Bleiddiaid. Os oes, mi fyddwn yn falch iawn o gael sgwrs â chi. Gallwch adael neges i mi ar rif ffôn 01974 202560 ac mi gysylltaf a chi.

Llawer o ddiolch

Yn Gywir

Cledwyn Fychan

Abbotsleigh
30 Larch Drive
Y Rhyl

Annwyl Olygydd

Cymdeithas Addysg y Gweithwyr
Yn dilyn mae copi o adolygiad Geraint Gruffudd, gynt o Brifysgol Bangor, o lyfryn Rufus Adams, *The WEA in North Wales 1925/6-95/6, Celebrating 70 Years*. Cyh. Gwasg Helygain 2004.

Bu Mr Adams yn Gyfarwyddwr y Gogledd o 1980 hyd 1996, a chyn hynny yn Diwtor-drefnydd yn Sir y Fflint a Chlwyd. Hyderaf y bydd rhai o'ch darllenwyr â diddordeb yn yr hanes.

Mae'n bosib archebu copi o'r cyfeiriad uchod am £2.50 (siec i G.A.G. Rhyl) neu ei brynu o Siop y Morfa, Y Rhyl am £2.

Gyda llawer o ddiolch

Alun Hughes

* * *

Mae awdur y llyfryn yma, Rufus Adams, yn addas i sgwennu'r hanes ar ddau gyfrif. Yn gyntaf, ef oedd Tiwtor-drefnydd Sir Fflint a Chlwyd o 1979 i 1980, ac yn ail dacth yn Ysgrifennydd Rhanbarthol Gogledd Cymru o'r mudiad ('W.E.A.') tan ei ymddeoliad yn 1996.

Mae'r daflen er cof am Mrs Barbara Edwards, y Rhyl, a roddodd o'i hamser a'i harian i fudiad y gweithwyr yn lleol ac i'r rhanbarth.

Wrth ei ddarllen, mae hanes diddorol yn datblygu drws ugain tudalen o ysgrifon a llythiau. Dengys fod mudiadau fel Cymdeithas Addysg y Gweithwyr yn anad dim yn ymwneud ac ymdrechion pobol. Daeth llwyddiant yr 'W.E.A.' cynnar o ansawdd tiwtoriaid fel

R. H. Tawney, a myfyrwr fel A. H. Dodd. Eraill sy'n derbyn lle haeddiannol yn y llyfryn yw J. F. Rees (tiwtor), Robert Richards (tiwtor llawn amser) a Silyn Roberts, a ddaeth yn Ysgrifennydd cyntaf y Rhanbarth ym 1925.

Mae'r awdur yn tanlinellu cyfraniad y tiwtoriaid yn rhoddi o'u hamser a'u talentau, ac eto ar ddiwedd y flwyddyn gyntaf (1926) nid oedd ond £8.10.2d ar ôl yn y banc!

Mae enwau bythol wyrdd addysg i oedolion yn llifo ar y tudalennau, gan gynnwys Dr Tom Jones, sylfaenydd Coleg Harlech, Ben Bowen Thomas, y Warden cyntaf ac, ar ôl marwolaeth Silyn yn 1930, ei weddw, Mrs Mary Silyn Roberts.

Hwyrach mai un o'r rhannau mwyaf diddorol yw'r un sy'n ymwneud â chyfraniad yr 'W.E.A.' ac eraill i addysg i oedolion yn ystod yr Ail Ryfel Byd. Gwelir myfyrwyr a thiwtoriaid yn ymateb mewn llawer ffordd, *'they lent cars, organised Bazaars and gave lectures without claiming a fee'* (tud. 11).

Mae Rufus Adams yn cydnabod cyfraniad cewri fel C. E. Thomas a Raymond Rochell fel Ysgrifenydd y Rhanbarth (gogledd Cymru). Mr Adams ei hun gymerodd yr awenau yn 1980 tan 1996. Hoffwn weld mwy o fanlion am y cyfnod diweddar yma, ond hwyrach bod ail daflen i ddilyn.

Pwysleisia'r awdur mai hanes am 'gymdeithas' yw hanes yr 'W.E.A.' Erbyn hyn mae'r mudiad wedi uno â Choleg Harlech, ond dymuniad pawb rwy'n siŵr yw fod nod y mudiad yn wreiddiol yn parhau, sef addysg i oedolion, gyda'r pwyslais ar gymdeithas, cyfeillgarwch a dysg.

D. Geraint Gruffudd

Uwch Diwtor (wedi ymddeol)

Adran Efyrdiau Allanol,

Prifysgol Cymru, Bangor

(1971-93)

Ailargraffiad o'r llyfr 'Ar Drywydd y Fonesig Constantia' Awdur: W. H. James (Gwasg y Bwthyn)

Hoffwn dynnu eich sylw at y llyfr uchod a gyhoeddwyd gyntaf yn 2002. Gwcrthwyd y cyfan o'r argraffiad cyntaf o fewn ychydig fisocdd gyda galwadau amdano yn dal i ddod i mewn. Oherwydd hyn fe'i hail argraffwyd eleni. Mae'n amlwg fod hanes teuluol ynglwm wrth hanes lleol yn boblogaidd iawn.

Yn naturiol mae'r penodau cyntaf yn ymwneud a'r ardal ym Môn lle'm ganed, sef Vnys Cybi. Er hynny, gan fy mod wedi darganfod pregethwyr o fri ymysg fy hynafiaid, daw

ardaloedd eraill yng Nghymru i'r amlwg. Yn eu mysg mae Llanfachraeth, Môn ble y ganwyd dau ohonynt sef y Parch. Edward James, Nefyn a'i frawd O. Waldo James a fu'n weinidog gyda'r Bedyddwyr yn Y Rhos ac Aberafan yn y De. Mae llun eu cartref yn Llanfachraeth yn y llyfr.

Cefais gyfran o'u hanes yn llyfr Cofiant y Parch. Edward James, ond daeth manylion hynod eraill i'r fei. Roedd eu nain, Constantina Bates, yn Saesnes, a chwaer eu nain yn gantores/actores yn Sadlers Wells, Llundain. Ei gŵr, Charles Dibdin, oedd rheolwr y theatr enwog. O ddyddiaduron Charles cawn hanes ymweliadau â chartre'r teulu yng Nghaergybi, ac â theulu Lloyds yn Llwydiarth, Llanerchymedd yn 1804. Ceir y manylion ym mhennod 10.

O'r un gwaed daeth y Parch. Joseph James, Salem, Amlwch oedd yn nai i Daniel James Hughes, Llanfaglan, Arfon a weinidogaethodd gyda'r Annibynwyr yng Nghaergybi a'r De.

Dyfynnaf o adolygiad Richard Lloyd Jones ar ddechrau'r llyfr. Ymddangosodd yr adolygiad yn rhifyn Medi 2002 o Eco'r Wyddfa.

* * *

O hyd yn y cefndir mae'r Fonesig neu Ledi Constantia. Pwy oedd hi, a ble'r oedd ei lle yng nghoeden deuluol y Jamsiaid a'r Bates? A'i teulu cynhenid o Fôn yw'r Jamsiaid?

Cewch eich arwain o wrthryfel y Jacobiaid yn yr Alban i dollborth yng ngogledd Môn.

Y mae'r gyfrol hefyd yn gaffaeliad os am fentro i fyd yr hel achau.

Ceisiais ysgrifennu'r llyfr mewn ffordd ddeniadol fel bo'r darlennydd yn cael yr un wefr ag a gefais innau wrth chwilota a datrys. Rhoddais ddigon o fapiau a thoreth o luniau i gynorthwyo'r darlennydd. O diddordeb arbennig i ddarllenwyr Eco'r Wyddfa, yw fod hen cwythr i mi, John James wedi bod yn 'Customs, Tide Waiter and Boatman' ym Mhorthdinllaen. Yn 1851 roedd yn byw yn Morfa Lodge, Nefyn, gyda gwraig a chwech o blant, tri bachgen a thair merch. Efallai fod disgynyddion ar Benrhyn Llŷn o hyd.

Ar gyfer yr ailargraffiad, cynhyrchwyd 100 llyfr yn y Gymraeg a 100 copi yn y Saesneg: *The Search for the Lady Constantia*. Gellir eu prwcasu yn siop Palas Print yng Nghaernarfon am bris o £10. Efallai fod dcunydd anrheg Nadolig yma.





W. H. James

Gogerddan, Bro Eglwys, Bethel.



Cwis y Nadolig

Pa bentref?



Er cof am John Roberts Williams

Gwrando dros fy sbectol.
Crygnî'r llais yn llifo'n llyfn
Drwy erwau ein cydwybod.

Cant namyn degawd
Yn goleuo drwy ddoethineb
O sylwi ar bethau'r byd.

Yr Aelod o Eifionydd
Mewn gair a phrint
Fu'n Jonsi'n Cymro ni.

Lliwio'r symudlun cyntaf
Fel cufeddiacth drwy'r Gymracg
Yn hanesyn storïol y gamp.

Caergaint, Caerdydd
A Chymru i gyd
Sy'n cofio hyd dy ddydd.

IFOR GLYN
Y GRAIG, CAPEL CURI

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth barob yn

Sychlanhau • Altro
Ailwnio
Gwasanaeth
Casglu a Danfon

24 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: **870088**

SWIGOD A SEBON



GWASANAETH COLCHI A SMWDDIO

(Atebion ar dudalen 25)



caban

Mae Prosiect Dylunio a
Menter Eryri yn dymuno
Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i'n
holl denantiaid, cwsmeriaid
a chefnogwyr.

I fwyta ac yfed mewn
awyrgylch braf, deuluol,
galwch acw!
■■■■■■■■

YR HEN YSGŌL, BRYNREFAIL
FFÔN: 01286 685462



CHWILOTA

Prynu Tir yn Llanrug i Gynnal Bywoliaeth Llanberis



Yn rhifyn Tachwedd o'r 'Eco' soniais fel y tynnwyd fy sylw at erthygl fer yng nghylchgrawn Cymdeithas Ffilatelig Cymru yn sôn am lythyr a anfonwyd o Gaernarfon i Lundain ynglŷn â phryniant tir ym mhlwyf Llanrug, er mwyn cynnal bywoliaeth eglwysig Llanberis. Penderfynais ysgrifennu at yr awdur yn gofyn am fwy o wybodaeth ynglŷn â'r weithred. Roedd rhai o'r tiroedd yn Llanrug yn cael eu henwi. Daeth ateb o Bristol gyda throad y post, gan yr Athro Cedric Prys-Roberts, a chopi hynod eglur o'r ddogfen wreiddiol wedi ei dyddio 1732. O fewn ychydig ddyddiau i gyhoeddi rhifyn Tachwedd, cefais hefyd wybodaeth ddiddorol gan Mr Stanley Roberts, Llanrug, yn lleoli rhai o'r tiroedd hyn. Rwy'n hynod ddiolchgar i'r ddau am eu hymatebion parod. Ymlaen â'r hanes...

'Queen Anne's Bounty'

Pan oedd Cymru'n wlad Gatholig, roedd y blaenffwrth a'r ddegfed ran o fywoliaeth eglwysig yn cael ei thalu i'r Pab. Yn dilyn y datgysylltu oddi wrth Eglwys Rufain, a sefydlu Brenin Lloegr yn bennaeth yr Eglwys Wladol, trosglwyddwyd y taliadau, neu'r trethi hyn, i'r Goron. Bu Esgob Salisbury yn ymgyrchu i geisio cael defnyddio'r arian o'r trethi hyn i gynnal bywoliaethau tlawd led-led y wlad. Nid oedd y Brenin William mewn sefyllfa ariannol gadarn i wneud hynny, ond perswadiwyd y Frenhines Anne i gydsynio, ac ym mis Chwefror 1704 daeth Ddeddf Seneddol i rym a sefydlu'r hyn a elwid yn 'Queen Anne's Bounty'. Roedd corff o ymddiriedolwyr bellach yn gofalu am yr arian ac yn ei ddsbarthu er budd bywoliaethau eglwysig. Ni chafodd y Frenhines Anne fyw i weld fawr ddim o'r taliadau hyn yn cael eu gwneud, ond erbyn cyfnod George II roedd Llywodraethwyr y 'Queen Anne's Bounty' mewn sefyllfa i gynnig budd-dal er cynnal nifer o fywoliaethau. Dyna felly, y cefndir i ddogfen 1732.

Cais Rheithor Llanberis

Un dull o ddefnyddio arian y 'Queen Anne's Bounty' oedd prynu tiroedd amaethyddol a'u rhentu, gan ddefnyddio cyfran o'r arian i gynnal bywoliaeth eglwysig. Dyna a wna Evan Owen, rheithor Llanberis, yn ei gais i Thomas Moore, Ysgrifennydd i Lywodraethwyr y 'Queen Anne's Bounty'. Mae'n

amlwg fod trafodaethau wedi bod ymlaen yn gynharach ynglŷn â phryniant y tir, oherwydd yn y llythyr mae Evan Owen yn cyfeirio at 'inclose the Title Deeds relating to the Lands proposed to be sold for augmenting this Living of Llanberis.' Mae eisoes wedi gwario rhyw gymaint o arian ar gyngor cyfreithiol, ac mae'n gwneud cais am ad-daliad o ddwy bunt a phymtheg swllt.

Mae'n ymddangos fod y tiroedd yn cael eu prynu oddi wrth William Bevan, sy'n fab i Lowry Rowlands, oedd yn dal y tiroedd ar forgais. Tybed ai un o deulu'r Rowlands, Plastirion ydyw? Ar du allan yr amlen mae neges yn nodi 'Rowland should be apprised to attend', ac y mae'r tiroedd dan sylw yn ffinio â thiroedd Plastirion. Mewn dogfen arall (y cawn sôn amdani yn ddiweddarach) mae William Bevan yn cael ei enwi fel 'gŵr bonheddig' (gent) o Lanberis, mab ac etifedd Evan William 'formerly of Betws Garmon, and late of Beddgelert, deceased.' Gan fod William Bevan yn byw yn Llanberis, mae'n egluro rhywfaint ar y rheswm dros werthu ei dir yn Llanrug i gynnal bywoliaeth Llanberis. £200 a dalwyd allan o gronfa 'Queen Anne's Bounty' am y tiroedd yn 1732, ac yr oedd y rhent am y tir yn mynd tuag at gynnal bywoliaeth Llanberis.

Lleoliad y Tiroedd

I'r rhai ohonoch sy'n teithio trwy Lanrug am Gaernarfon, mae'r holl diroedd dan sylw ar y chwith

o'r briffordd, rhwng mynedfa Seiont Manor a'r tŷ cyntaf ar y chwith ym Mhontrug. Yma, yn ardal y tiroedd amaeth gorau rhwng Pontrug a Chaeathro roedd hen 'bentref' Llanrug, sef casgliad o fân ffermydd a thyddynnod, yn cael eu dal gan aelodau o wahanol deuluoedd, a llawer ohonynt o bosibl yn ddisgynyddion i hynafiad cyffredin. Dyma'r ardal ble ceir enwau hynafol ar ddaliadau tir; enwau a drosglwyddwyd yn ddiweddarach i gaeau unigol pan adeiladwyd cloddiau a phlannu gwrychoedd o'u hamgylch.

Darnau bychan o dir oedd llain, dryll, clwt a sling yn yr hen oesoedd; ond enwau sydd wedi goroesi, ac yn aml yn enwau ar gaeau neu hyd yn oed ffermydd bellach!

Dryll Nicholas

Nicholas mae'n debyg oedd perchen y darn bychan o dir a goffeir wrth yr enw Dryll Nicholas. Pwy oedd y Nicholas hwnnw? Anodd iawn darganfod hynny bellach, ond roedd person o'r enw hwnnw yn byw yn Llanrug bedwar can mlynedd yn ôl, ac yn cael ei ddisgrifio fel 'gŵr bonheddig' ('gent')! Mae un ddogfen ar gael yn cofnodi trosglwyddo tir yn nhrefgordd Rug, sef enw yr hen uned weinyddol oedd yn ffurfio rhan o blwyf eglwysig Llanrug. Yn amserol iawn, mae'r ddogfen wedi ei dyddio'r deunawfed o Ragfyr 1613.

Enwir John ap Ieuan ap Nicholas o Rug, a Morgan ap John ap Ieuan, ei fab a'i etifedd. Y tir dan sylw yw daliad Glan Saint, gwerth £40; sef fferm bellach, wedi ei lleoli rhwng Seiont Manor ac afon Saint, a heb fod nepell o'r tiroedd dan sylw ganrif yn ddiweddarach. Mae Morgan ap John ap Ieuan yn cael ei enwi eto mewn dogfen ddiweddarach (Chwefror 1618) ynglŷn â daliad Glan Saint 'and other lands in Rug'. Hynny yw, roedd wedi etifeddu Glan Saint oddi wrth ei dad, a hefyd diroedd eraill yn nhrefgordd Rug. Gallai'r tiroedd eraill hyn gynnwys y dryll oedd yn eiddo i'w hen daid! Ond dyfalu yw hyn, ac ni ellir profi'r berchnogaeth.

Y Tiroedd Eraill

Ar wahân i Dryll Nicholas, y

tiroedd eraill a brynwyd o gronfa'r Queen Anne's Bounty' oedd Cae Coch, Cae Newydd, y Lleiniau, Cae'r Llwyn, Cae bach, Bryniau'r Twrch a Nant bach. Mae Mr Stanley Roberts wedi cynnwys map bras i leoli'r tiroedd hyn ar sail gwaith ymchwil a wnaed ganddo ar ddechrau'r 1950'au i enwau yn nhrefgordd Rug yn y Canol Oesoedd. Mae'n awgrymu mai ar dir Plas Gwyn roedd y caeau hyn. Meddai: 'Yn 1732, y Parch Robert Edwards oedd rheithor Llanrug, ac roedd yn byw yn Tŷ Gwyn (hen enw Plas Gwyn).' Er nad yw'r enwau'n cyfateb yn union, gellir derbyn mai dyma'r ardal dan sylw.

O gymharu'r wybodaeth sydd ganddo â Map y Degwm am blwyf Llanrug (tua 1839), gwelir fod yr enwau, mwy neu lai'n cyfateb.

Ffiniau'r Tiroedd

Mae dogfen 1732 hefyd yn enwi rhai o'r tiroedd sy'n ffinio ag eiddo bywoliaeth Llanberis, gan enwi hefyd eu perchnogion. Maent yn cynnwys: 'on the south, the lands of John Rowlands, gent', sef tir Plastirion; 'on the west the lands of Evan William called Tyddyn gwâg; on the north-west the lands of Rice Thomas Esq deceased, and the land of the said Evan William called Maes y Pwll; on the north the lands of the said Evan William called Tir y Cribwr, and on the east, the common of Rhos Rug.'


Methais â darganfod cofnod o fferm na daliad o'r enw Tyddyn gwâg, ond parhaodd yn enw ar gaeau. Yn wir, defnyddir yr enw mor ddiweddar â 1918 pan aeth Stâd Plastirion ar ocsiwn. Roedd Maes y Pwll yn enw ar gae'n ffinio â Dryll Nicholas a Cae Coch, a goroesodd yr enw Cribwr yn y daliad bychan Buarthau'r Cribwr, sef y Buarthau presennol gyferbyn â mynedfa Seiont Manor. Y perchnogion dan sylw oedd Rice Thomas, Stâd Coed Alun, Caernarfon. Roedd cangen o'r Stâd hon yn berchen ar y Glasgoed, Llanddeiniolen. Evan William oedd perchennog Stâd Cae Poeth, Llanrug; y teulu a fu'n gyfrifol am adeiladu Castell Bryn Bras ychydig dros ganrif yn ddiweddarach.


Eiddo Llanberis

Ar wahân i'r tiroedd a enwir yn nogfen 1732, roedd gan fywoliaeth Llanberis diroedd eraill yn Llanrug. Cawn sôn am y rheini yn rhifyn nesaf yr 'Eco', a gwybodaeth hefyd ynglŷn â'r hyn ddigwyddodd i'r holl diroedd pan benderfynwyd eu gwrthu ychydig dros ganrif yn ôl.

Cyd-ddigwyddiad

Pan ysgrifennais at yr Athro Prys-Roberts ym Mryste, doedd gen i ddim syniad fod ei gysylltiad â bro'r 'Eco' mor agos. Cafodd ef a'i chwacth eu magu ym Mhlas Tirion, Llanberis, a'u tad yn athro yn Ysgol Brynrefail. Symudodd y teulu i fyw i Aberystwyth yn 1938. Daw teulu ei daid o'r Waunfawr a theulu ei nain o Ddeiniolen a Phenisa'rwaen. Mae wrthi ar hyn o bryd yn casglu archif o hanes y gwasanaeth post yng Nghymru.





Caeau Ardal Pontrug yn ôl Map Degwm Llanrug

Dyma'r enwau a gofnodir ar Fap Degwm Llanrug. Ni roddir enwau i unrhyw un o gaeau Plas Gwyn.

Allwedd

- | | |
|---|-----------------|
| 1. Di enw - eiddo Plas Gwyn | 5b. Bryn bach |
| 2. Cae Dryll Nicholas | 6. Di enw |
| 3. Cae Coch | 7. Cae Mawr |
| 4. Werglodd bach | 8. Cae'r goeden |
| 5. Bryn | 9. Cae'r lloiau |
| 5a. Bryn mawr - dyma'r 'Bryniau' gwreiddiol felly | |

Does dim sôn am Lleiniau Bach a Lleiniau Mawr.

yn byw am gyfnod yn Bryn Siriol. Maent oll wedi eu claddu ym mynwent Betws Garmon.

Mae'r trydydd cais yn ymwneud â theulu oedd â chysylltiadau â Saron a Seion. Oes unrhyw un â gwybodaeth am Gwylfa Alawydd, a rhoi iddo ei enw barddol, sef Owen R. Jones, awdur *Cydymaith Ffyddlawn* a gyhoeddwyd yn 1902. Roedd brawd iddo, Griffith R. Jones, yn byw yn Erw Ffynhonydd, Saron. Credir ei fod yn bregethwr.

Gyda diolch i bawb a fu mewn cysylltiad ynglŷn â gwahanol agweddau o hanes y fro dros y flwyddyn a aeth heibio. Bydd gweddill hanes tiroedd bywoliaeth Llanberis yn parhau yn rhifyn nesaf yr 'Eco' a ddaw allan ddechrau Chwefror. Yn y cyfamser, gwyliau dedwydd i bawb a blwyddyn newydd lwyddiannus.

Anfonwch unrhyw gyfraniad neu ymholiad i Dafydd Whiteside Thomas, 'Bron y Nant', Llanrug, Caernarfon. (Ffôn: 01286 673515)

CENHADON O'R CEUNANT

Gan Arwel Jones, Rhosgadfan y daeth y wybodaeth am y ddau o Lanrug oedd yn y Mission House ar Ynys Enlli yn 1881. Mae'n dyfynnu o Hanes Methodistiaeth Arfon, Cyfrol 2: 'Yn 1867 hefyd y dechreuodd W. T. Jones, Hafodlas, bregethu. Aeth yn genhadwr i Enlli yn 1875.'

Fe'i ganed yn Hafodlas, Ceunant tua 1847, mab hynaf Thomas a Jane Jones. Erbyn Cyfrifiad 1861 roedd William yn 14 oed ac yn chwarelwr. Gweddill y teulu oedd Elizabeth (11 oed), a hi aeth gyda'i brawd i Enlli i gadw tŷ iddo, Thomas (9 oed), Janc (6 oed), Elinor (4 oed) a Catherine (mis oed). Ganwyd mab arall, John, yn ddiweddarach.

Yng Nghyfrifiad 1871 mae William yn cael ei gofnodi fel 'local Methodist preacher and joiner', ond nid yw ei chwaer, Elizabeth, gartref yn Hafodlas bryd hynny. Yn 1881 mae William a'i chwaer ar Enlli. Erbyn hyn, mae eu tad, Thomas Jones, wedi marw ers dwy flynedd; 'diacon ffyddlon yn eglwys y Ceunant ers 21 mlynedd'. Bu Janc Jones, y fam, fyw hyd 1906. Claddwyd y ddau ym

mynwent Llanrug. Ysgrifennodd William T. Jones gerdd goffa i'w rieni, ac y mae copi ar gadw yn Llyfrgell y Brifysgol ym Mangor.

Mae'n amlwg i William T. Jones wneud argraff yn Enlli, oherwydd rhoddwyd iddo'r teitl answyddogol (!), Esgob Enlli. Yn 1885 cafodd alwad i fod yn weinidog Capel Peniel, Llanbedrog. Bu'n lletya am gyfnod yn Trygarn, ond erbyn 1897 cododd dŷ iddo'i hun o'r enw Bryn Derwen, a bu'r teulu'n byw yno hyd 1948.

Bu farw'r Parch William T. Jones yn 1910 a gadawodd eiddo i wahanol aelodau'r teulu, sef ei frawd a'i chwiorydd a'i neiaint. Roedd un nai, Thomas Henry Parry, mab Catherine, wedi mudo i Chicago i fyw, ond dychwelodd i Gymru gyda'i briod. Roedd yr eiddo a adwyd yn yr ewyllys yn cynnwys Hafodlas, Bryn Tirion, Tŷ Isa a Garth yn ardal y Ceunant.

Llawer o ddioc'h am wybodaeth ynglŷn â'r llanc o lechrau'r cefn Du a fudodd i Enlli cyn diweddu ei oes yn gwasanaethu trigolion pentref glan y môr Llanbedrog.

Cais am Wybodaeth


Yn ystod yr wythnosau diwethaf cefais ymholiadau am deuluoedd yn ardal y Waunfawr ac yn ardal Saron a Seion, Llanddeiniolen.

Rwyf angen unrhyw wybodaeth am deulu Hughes, Gwredog Bach, Waunfawr, tua dechrau'r ganrif ddiwethaf. Deuent yn wreiddiol o Ddrws y Coed. Mae cysylltiad rhyngddynt â theulu Garreg Fawr, Waunfawr.

O gyfnod cynharach, oes unrhyw un â gwybodaeth am John John Evans, Bryn Gwylan, Croesywaen, Waunfawr, a anwyd yn 1858. Ei rieni oedd John Evan Jones a Catherine, a thybir eu bod



Un cae anferth sydd bellach ble bu Dryll Nicholas, Cae Coch a Maes y Pwll.



Copi o'r llythyr a anfonwyd o Lanberis i Lundain yn 1732 ynglŷn â phryniant tir yn Llanrug.

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Gosodwr Teils

Arbenigwr mewn walliau a lloriau

Gwaith bach neu fawr
Gwaith da bob amser

Ffoniwch Lloyd ar
01286 830 805

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

CONTRACTWYR TRYDANOL ELIDIR

Bob math o waith trydanol i'r Cartref, ac i Sefydliadau Masnachol a Diwydiannol

Tel: **(01286) 879064** - Symudol: **07810736482**

Amcangyfrif am ddim • Ar gael 24 awr y dydd

Shaun Jones, Terannedd, Rhos Cynfi, Deiniolen LL55 3LG

CAEATHRO

Clive James, Hafan, Bryn Gwna.
Ffôn: (01286) 679501 (gwaith). 677438 (cartref)

LLONGYFARCHIADAU. Mae Mari Roberts, Cefn Rhos Isaf, wedi dathlu ei phen-blwydd yn 18 oed yn ddiweddar.

YSBYTY. Ar hyn o bryd mae Mr Appleton, 5 Tai Brynteg, yn yr ysbyty.

TRINIAETH YN YR YSBYTY. Mae Mrs Margaret Jones, 22 Tai Glangwna, wedi cael triniaeth ar ei phen-glin ac yn gwella'n dda.

CYDYMDEIMLWN â Mrs Naomi Garside a'r teulu, Bron Gwna, adeg colli ei gŵr, Barry, ddiwedd mis Tachwedd.

GWASANAETHAU'R CAPEL..

Cynhelir y gwasanaethau canlynol yn ystod mis Ionawr.

2: 2.00 Parch Iorwerth Jones Owen.

9: 11.00 Ysgol Sul.

16: 11.00 Ysgol Sul

2.00 Parch Trefor Jones.

23: 11.00 Ysgol Sul

30: 11.00 Ysgol Sul.

DIGWYDDIADAU'R NADOLIG: Erbyn i'r rhan helaeth o'n darllenwyr yng Nghaeathro dderbyn a darllen rhifyn Nadolig Eco'r Wyddfa, bydd llawer o ddiwyddiadau Tymor y Nadolig pentref Caeathro wedi digwydd: bu Clwb y Merched yn bwyta yn Mhenrhos; bydd y goeden Nadolig yng nghanol y pentref wedi'i chodi a'i goleuo er mwyn cyfeirio Siôn Corn at aelwydydd a chartrefi plant da; cafwyd Ffair Nadolig lwyddiannus yng Nghanolfan y Capel; parti Nadolig i'r plant iau a

Gwasanaeth Nadolig yn y Capel.

Diolch i bawb sydd mewn unrhyw ffordd wedi cyfrannu at lwyddiant yr anturiaethau uchod. Wrth gwrs, yn ogystal bu nifer o ddiwyddiadau llai ffurfiol a thymor Nadolig cyntaf Gareth, Rhian a Steffan yn Nhafarn Bryngwna.

Yr unig ddiwyddiad ar ôl yw'r Wyl Nadolig ei hunan - Gŵyl genedigaeth Iesu Grist. Yng ngeiriau'r Parch Harri Parri yng Nghapel y pentref ar ddydd Sul, 5 Rhagfyr 'Cofiwch roi'r baban yn y Nadolig - nid oes Nadolig heb y baban Iesu.'

Dymuniadau gorau y tymor i bob un o'r darllenwyr - yng Nghaeathro a'r cylch a thrwy'r byd, a gobeithiwn y bydd y Flwyddyn Newydd yn Dda i bob un ohonoch. MARWOLAETH. Ddechrau'r mis bu farw Doris Mulhenfeld yn 77 mlwydd oed yn yr ysbyty. Roedd yn un o deulu mawr o Lanbedr, Dyffryn Clwyd ac ar ôl dod i'r ardal bu'n gweithio yng Nghartref Maesincla. Roedd hi'n ddarllenwraig frwd, yn arddwr craff ac yn arbenigwraig ar wau. Yn aelod ffyddlon o'r gymdeithas, Clwb y Merched a'r Capel, byddai bob amser yn barod i gynnig cyngor neu gymorth. Roedd ganddi hi a Heinz, ei hail ŵr, a fu farw ychydig yn ôl, 4 o blant. Cof pleserus yn unig sydd gennym rwan ond diolch amdani. Roedd hi'n ased i Gaeathro, ac yn gyfaill i bawb.

Darllen Difyr

Ydech chi'n chwilio am rywbeth i'w wneud yn ystod gwyliau hir y Dolig, neu angen un anrheg olaf i hosan rhywun pwysig. Os bydd y tywydd yn oer neu'n wlyb be fyddai'n well na swatio wrth danllwyth o dân, neu dân nwy, hefo llyfr da.

Dyma gasgliad amrywiol i siwtio oedolion a phlant, sydd newydd gyrraedd y siopau gan wasg leol.

Y Dyn 'i Hun (Cyfres y Cewri 28) Hywel Gwynfryn

Ers deugain mlynedd, mae Hywel Gwynfryn wedi llifo fel arian byw i bob cornel o'r byd darlledu Cymraeg, ac mae bellach wedi hen ymsefydlu fel un o'n prif ddarlledwyr ar radio a theledu.

Wrth ddarllen hanes ei fywyd llawn ac amrywiol, cewch rannu'r cyfnodau tywyll yn ogystal â'r amserau da. Er bod ei hiwmor afieithus yn britho'i hunangofiant, nid yw'n osgoi delio'n onest a chignoeth â sawl profiad ysgytwol yn ei fywyd personol. Ond fyddwch chi ddim yn hir wedyn cyn y byddwch chi'n chwerthin yn uchel wrth ddarllen am fyrdd o droeon trwstan ei yrfa ddisglair, hirhoedlog!

Tân ar yr Ynys, R. Tudur Jones Golygydd a diweddarwyd gan ei fab, Geraint Tudur

Dywedir mai yn Sir Fôn y gwelwyd Evan Roberts, y Diwygiwr, ar ei hapusaf. Yno y cafodd ei brofiad

cyntaf o bregethu yn yr awyr agored, ac yno y gwelodd y gynulleidfa fwyaf yn holl hanes y Diwygiad yng Nghymru. Yn y gyfrol hon, cawn yr hanes cynhyrfus gan y diweddar R. Tudur Jones (1921-1998), gŵr a wnaeth gyfraniad enfawr i'n dealltwriaeth o hanes crefydd yng Nghymru. Nid oedd un cyfnd nad oedd yn gallu siarad amdano gydag awdurdod, ac wrth iddo lefaru, ni allai ei wrandwyr ond rhyfeddu at ehangder ei wybodaeth a chyfoeth ei fynegiant.

Cyrn y Diafol, Geraint Jones

Mae'r gyfrol ardderchog hon o waith Geraint Jones, arweinydd Seindorf Trefor ers dros 35 mlynedd, yn un y bu hir ddisgywl amdani yng Ngwynedd, ac yn wir yng Nghymru, yn arbennig yn y cylchoedd cerddorol. Bu'r aros yn werth pob eiliad.

Hanes rhyfeddol blynyddoedd cynnar (c1830-1920) bandiau pres Gwynedd, yn arbennig bandiau'r chwarelwyr, ydi cynnwys difyr, diddorol a dramatig y llyfr, a'r cyfan wedi ei ysgrifennu'n llyfn a choeth.

Cawn wybod am y dechreuadau cythryblus a meddw yn Neiniolen, Llanrug, Trefor, Nantlle, Ffestiniog a phob pentref chwarelyddol mwy neu lai, gan gynnwys bandiau byrhoedlog fel Carmel, Nant Peris, Baladeulyn, Nebo, Dolwyddelan a Brynrefail.

Gelwid yr hen fandiau geirwon yn 'gyrn y diafol' gan ddeiliaid y set fawr a dyna o ble y cafwyd teitl

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA ODDI WRTH BAWB YN



GAREJ GWALIA



GWASANAETH TORRI LAWR 24 AWR
M.O.T. ★ TRWSIO GEIR



CAEATHRO

Ffôn 673096

HEFYD EIN SIOPAU



YNG NGHAEATHRO,
LLANRUG a
BETHESDA

Ar agor 7.30 a.m. - 10 p.m. bob dydd. Bwyd, diodydd, papurau newydd, fideos, bara, llefrith, ayyb



Cyfarchion

Nadolig Caeathro

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth bawb ym



MHARC GWYLIAU GLAN GWNA



CAEATHRO. Ffôn: Caernarfon 673456
Diolch am eich cefnogaeth yn ystod y flwyddyn

MODURDY

PLAS BACH

CAEATHRO

Ffôn: Caernarfon 672072

GWERTHU . TRWSIO

TRIN CYRFF . H.P. AR GAEL

NADOLIG LLAWEN A
BLWYDDYN NEWYDD DDA

I BAWB



trawiadol y gyfrol, er i'r capelwyr ddefnyddio'r hen fandiau mewn gorymdeithiau dirwest, ysgolion Sul a Chymdeithasau Cyfeillgar gydol y cyfnod dan sylw. Gwendid mawr yr hen fandiau, fodd bynnag, oedd eu hymlyniad cyson i'r gasgen gwrw, a hynny gyda chanlyniadau dyrys a niweidiol i'w hymddygiad a'u moes.

Adroddir peth wmbredd o hanesion anhygoel am helyntion gwlybion a threisgar hen fandwyr Gwynedd, mewn cystadlaethau yn arbennig, ac am eu cefnogwyr, eu harweinyddion a llawer o gymeriadau rhyfeddol. Ceir hanes Wil Blac, drymiwr Band Llanllyfni - dyn du a siaradai Gymraeg; Lawrence Bach, arweinydd bandiau Ffestiniog a Thalsarnau, y dywedid ei fod yn daid i Lawrence o Arabia; Cyflafan Fawr Pwllheli (1895), a helbul Hugh Evans, Dafarn Newydd a'i ddannedd gosod - a llawer, llawer mwy.

Dyma lyfr ardderchog ei ddiwyg a'i hen ffotograffau, llyfr sy'n darllen fel nofel, ac sydd yn un o'r llyfrau hynny na fyn unrhyw ddarllenydd Cymraeg fod hebddo.

Hwrê! Mae 'na Hipo'n Tynnu'r Sled!, Sonia Edwards

Darluniau: Rhys Bevan-Jones
Yr ail yn y gyfres o anturiacthau Owain a'r anifeiliaid hud sy'n neidio i lawr yn y nos oddi ar y papur wal. Mae Sonia Edwards yn feistres ar ddweud stori afaelgar a'r tro yma mae wedi mynd i fyd plant 5-8 oed gyda stori Nadoligaidd. Mae darluniau ardderchog Rhys Bevan-Jones o Landysul, yn cyfleu'r hud a'r miri ar noswyl Nadolig, y cyffro tu allan i ffenest y llofft a Siôn Corn druan mewn andros o bicil. Dilynwch Harri'r hipo a'i ffrindiau, a dewch allan i'r cira i ymuno yn yr antur fawr! *Help! Mae 'na Hipo yn y Cwstard!* oedd y llyfr cyntaf yn y gyfres.

Cymeriadau Môn

(Cyfres Cymêrs Cymru)
Emlyn Richards
Dyma ddrseliad o gymêrs o Sir Fôn, gan awdur sy'n gryn gymêr ei hun. Bu Emlyn Richards ym Môn yn ddigon hir bellach i fod yn un o'r Monwyson. Mewn mart a marchnad, mewn primin a chyngerdd daeth i adnabod cyfoeth ei chymeriadau.

Dyma gyfle o'r newydd i werthfawrogi dawn yr awdur poblogaidd hwn i dynnu lluniau

byw mewn geiriau, wrth iddo gyflwyno twr o gymeriadau difyr o'r Ynys: John y postman, y byddai'n well gan bobol y fro ei weld o yn hytrach na'r llythyrau; clagwydd Nel Carmel yn siarad; Jac Bwth yn yfed ffisig y bustach a'r ddau yn byw; tractor Gwilym Price ar dân a dim dŵr i'w ddiffodd!; Robin Joci; Owen Saith Llathen a Glyn Pensarn. Cewch yma bortreadau lliwgar sy'n ddrych hefyd o gyfoeth diwylliant a doniau Môn - 'cymêrs' a fydd yn dal i oglais y cof ymhell wedi i chi gau'r cloriau. Onid yw athrylith ac odrwydd yn rhannu'r un gwely? Darllenwch a gwelwch!

Hon yw'r drydedd yn y gyfres. *Cymêrs De Ceredigion* gan Dic Jones oedd y gyntaf, yna *Cymêrs Penllyn* gan Elwyn Edwards.

Amen Dyn Pren, Gwilym Tudur a Mair E. Jones

Dyma lyfr hynod, y cyntaf o'i fath efallai. Mae'r dywediadau a'r eirfa fel ffrâm liwgar yn cyflwyno darlun byw o'r iaith yn ei chynefin mewn tylwyth a chymdeithas. Mynd ati i drin a thrafod pethau a glywsant ar lafar yn eu hen ardal a wnaeth y chwaer a'r brawd o Eifionydd. Ond byddwn i gyd yn 'nabod ein hunain yma, a chawn weld o'r newydd mor fywiog a dyfeisgar yw'n hiaith ni.

Diddanu yw'r bwriad, a cheir detholiad o luniau difyr a bachog y cartwnydd enwog, Tegwyn Jones, yn y fargen. Mae yma ddigon i fyfyrion drosto hefyd a deunydd amrywiol at ddant pob math o ddarllenwyr. Wele'r dwys a'r di-chwaeth, y difri' a'r digri - cymrwch eich dewis!

Idris y Cawr, Catherine Aran

Darluniau: Eric Heyman
Mae'r awdur yn cnw cyfarwydd i'n plant, yn ein hysgolion a'n llyfrgelloedd, fel storiwraig a chyfarwydd hynod ddawnus. Mae'r stori wreiddiol hon ar ffurf chwedl, gydag arlunwaith trawiadol gan yr artist, Eric Heyman ar bob tudalen, dyn tân o Gaerdydd, ond a hoffai fod yn artist proffesiynol, ac o weld ei waith mae'n hawdd gweld pam.

Hanes Idris gawn ni, Cawr Cadair Idris, a'i ffrind Carwyn y Ceffyl, wrth iddynt gychwyn ar daith hir a pheryglus dros ddŵr a thir, i gyrraedd cartref cariad Idris, sef Lleuad! Mae Idris yn wahanol ac mae bod yn wahanol wastad yn anodd. Ond pan ydych chi'n gawr addfwyn ynghanol llond gwlad o gewri ffyrnig, mae hynny'n waeth fyth! Yn enwedig pan ydych chi mewn cariad!

'Brigyn'

Ynry ac Eurig Roberts

(Label Gwynfryn Cymunedol)
Dyma brosiect cerddorol newydd y brodyr Ynry ac Eurig o'r band Epitaff. Mae'r gerddoriaeth wedi gwyro yn llwyr oddi wrth swm acwstig Epitaff, ac mae arbrofi a thechnoleg wedi ei ddefnyddio i greu 'Brigyn'.

Mae teimlad sinistr, hudolus drwy'r cyfanwaith, a chaiff hyn ei wthio ymhellach gan y riffs synth lleddf sydd i'w clywed mewn sawl trac. Mae gitars acwstig i'w clywed yn y sbloetsh o dechnoleg ac arbrofi hefyd.

Cychwynna'r prosiect gyda phrif gân y CD, yn fy marn i, 'Os na wnei di adael nawr.' Mae sampls telyn a llinynnau wedi eu hadeiladu i mewn i'r gân, sy'n adeiladu at uchafbwyntiau hollol stynning a gafaelgar. Mae'r gân a'i geiriau yn nodweddiadol o'r emosiwn cryf sy'n rhan o'r gerddoriaeth, ac sy'n llifo'n ddi-stop gyda chymorth y rhythmau peiriannol, sydd mor wahanol i unrhyw beth 'dw i wedi ei glywed o'r blaen.

Pe bai'r rhythm yn cael ei ddyblu, mi wnâi gerddoriaeth dawns gwych, er bod llawer mwy o sylwedd iddo fo 'na hynny!

Mae steil trip-hop arbrofol i'r rhan fwya o'r gerddoriaeth, ond daw ambell gân ac adlais Epitaff yn ôl gyda chaneuon mwy acwstig di-rhythm, sy'n gwneud defnydd o biano a'r gitâr, ac wrth gwrs mae llais hudolus Ynry yn rhoi cymaint i'r caneuon - ma' jyst yn wych. Mae'r caneuon cyferbyniol heb ganu o gwbl, ac yn debyg i jamio technegol sy'n adeiladu rhythmau ar ben ei gilydd am hir.

Mae cyffyrddiadau Indiaidd gwahanol i'w clywed yma, sy'n dangos pa mor arbrofol ydi'r prosiect, 'Brigyn'. Mae harmoni yn dal i gymryd lle blaengar yn y gerddoriaeth, yn enwedig yn y gân 'Llipryn', sy'n cael ei chanu gan Eurig, ac mae'r miwisg jyst mor neis, allwch chi ddim peidio'i licio fo!

Mae symlder y geiria yn effeithiol, dim fel y dywed beirniadaeth yn y *Cymro*, 'yn ddi-ddychymyg'.

Mae'r cyfanwaith yn gampwaith ac yn haeddu lot o sylw, da iawn!

LEUSA, LLANUWCHLLYN
Ffansin Cymraeg Newydd 'Ffwdanu'.
Ar gael wrth gysylltu â
ffwdanu@yahoo.co.uk



CEFNOGWCH EIN HYSBYSEBWYR

TAFARN BRYNGWNA
Cacathro
Croeso mawr i bawb i'r 'Bryngwna'
yng nghanol pentref Cacathro, lle ceir bwyd cartref ac awyryniach o ddiodydd traddodiadol, i gyd mewn awyrgylch cartrefol mewn trefen beudog yng nghwmni Gareth a Steffan Bowen.
Ginno dydd Sul a hynbrydau ar gael
Ffôn: (01286) 674566
i gadau bwrdd neu archebu ymiaco llaw
Nadolig Llawn a
Blwyddyn Newydd Dda i bawb

DINORWIG
Miss Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. 870292

Camera yn ngofal Gwyndaf Hughes, Glascoed, Llanrug. Ffôn: 677263

OLWB ORWIG. Penderfynwyd mewn cyfarfod o'r clyb uchod ar 10 Tachwedd, y dadorehuddir y Gofeb i'r Chwarelwyr ar 7 Mai y flwyddyn nesaf. Gwerthfawrogi'r naellion'r rhai sydd eisoes wedi cyfrannu at y gofeb. Derbyniwyd £200 o roddion hyd yn hyn a gobaithir am ragor o gyfraniadau. Derbyniwyd y rhoddion gan Miss Nellie Wyn Jones, Ty'n y Fawnog. Gwerthfawrogi'r cardiau Nadolig er budd (Age Concern) yn y clyb.

Cymerodd pawb ran mewn gem Bingo gyda Andrew Griffith yn galw'r rhifau, a'r onillwyr oedd Betty Ann Jones, Alice Griffith a Betty Lloyd Roberts. Rhoddwyd y gwobrau gan Glenys a Martin o'r Veg Van. Enillwyr y raffl oedd Elisabeth Jones a Margaret Faulkener. Rhoddwyd y te a'r gwobrau gan Rose a John Cantrell. Gwnaed y trefniadau ar gyfer y cinio Nadolig a gynhelir yn Blue Paris.

EISTEDDFOD ERVRI A'R CYFFINIAU. Os oes unrhyw un yn dymuno cyfrannu at yr Eisteddfod uchod byddwn yn ddiolchgar iawn am eich cyfraniadau bach neu fawr, gan fod tipyn o waith eto i gyrraedd y nod. Gellir anfon eich rhoddion i'r Trysorydd, Marian Jones, Minallt, 7 Bro Elidir, Dinorwig. Diolch am y rhoddion sydd wedi dod i law yn barod.

NADOLIG LLAWEN. Garwn dymuno Nadolig Llawn i bawb yn yr ardal, ac wrth gwrs, i Mrs Katie Lloyd Hughes, a Mr Dafydd Thomas, y ddau wedi gorffod gadael eu cartrefi am gartrefi preswyl. Ein cofion atoch eich dau, gan dymuno y gorau i chi. Hwyl yr Ywl, gan goffo mai dethlu

Eisteddfod Bentref BETHEL

Stori Manon Wyn Williams a enillodd iddi y Tlws Uwchradd yn Eisteddfod Bentref Bethel.

Cywilydd

Rhyfadd ydi meddwl yn ôl rhyw fis, i'm sefyllfa yr adeg honno. Taid dal yn fyw ac iach, yn mwynhau ei lecyn bach ei hun, sef fferm 'Tŷ-Croes' yng Ngharmel.

Trwy gydol fy mhlethentod roedd pob penwythnos yn cael ei dreulio 'fyny yn yr Alps' fel yr oedd mam yn ei alw, oherwydd ei bod hi'n rhewlyd o oer yno bron bob tro, a dim math o dechnoleg gwresogi diweddaraf yn y tŷ bach twt, a oedd mor hen ffasiwn â het! Roedd hi'n aml yn gynhesach y tu allan. Ond er yr hinsawdd anffafriol yma, ar ddiwrnodau braf o haf (a oedd mor brin â chyrants mewn pwdin reis ysgol) roedd y tŷ bychan yn eistedd yn dangnefedd i gyd, a'r ardal o'i amgylch yn fyddin o liwiau. Edrychai tua mynyddoedd Pen Llŷn, gwyliai'n geidwadol dros dref frenhinol Caernarfon a chadwai lygaid barcud ar lanw Dinas Dinlle yn llyfu'r arfordir. Roedd yr olygfa yn fendigedig a bydd yn atgof yn fyw yn fy nghof am byth.

Am fy mod i yn aelod brwdfrydig o fudiad y Ffermwyr Ieuanc, roedd taid yn gryf o'r farn ei bod hi'n ddyletswydd arnaf i helpu o amgylch y fferm. A dyna a fu pob pnawn Sadwrn ar ôl y cinio blasus o sglodion.

Chware teg i minnau - dydd Sadwrn, diwrnod mwyf diddorol yr wythnos - a minnau ym mhentref mwyaf diflas yr ardal, mor ddi-ffrwyth fud yn gwrando ar y rhestr diderfyn o 'jobsus' yr oedd taid wedi treulio yr wythnos cynt yn meddwl amdanynt.

Arferol iawn oedd cael fy llusgo i'r 'landrover' dlawd, roeddwn mewn penbleth barhaol sut ar wyneb y ddaear oedd y darn o fetel yma yn llwyddo i basio prawf 'M.O.T.' Ond roedd hi'n hen ffrind ffyddlon iawn i taid. Gorchuddiwyd y tu mewn gan haen o olew a phaent glas y marc defaid, ac heblaw am y ffaith fod fy nillad ffasiynol, drud yn fudur yn dod ohoni, roeddwn hefyd yn drevi o fwg baco o bibell taid ac am fod Glen, y cythrel ei defaid, yn mynnu eistedd ar fy nglin. Balchder oedd pan fyddai taid yn cynnig ei gap ffarmwr i mi,

neu ei 'bicsi' yn ei ôl ef. Roedd yn ddull clyfar iawn o guddio fy ngwyneb mewn cywilydd. Ymgeisiais lawer gwaith i suddo i mewn i sedd y 'landrover' yn y gobaith na fuasai neb o bwys yn fy ngweld.

Fyny uwchlaw y pentref yr euthum bob tro, ac ym mhob tywydd, i fwydo'r defaid ac i'w symud o un cae i'r llall. Meddyliais lawer gwaith mai dim ond ffordd i basio'r pnawn oedd symud y defaid ac ei fod yn hollol ddibwrpas. Ond gwrando'n astud ar orchmynion taid wnes i, a thrio fy ngorau glas i'w dilyn neu colli fy 'streips' fyddai'r canlyniad. Er, gwaetha'r modd, dyn ffyslyd iawn oedd taid ac roedd llawer tro lle nad oedd fy ngorau i ddim digon da, felly mi fu damio. Ond wrth lwc yn draddodiadol, cyn cyrraedd giât y lôn i'r ffarm 'dani'n dipyn o fets,' fyddai ei eiriau. Llwyddai hyn i ymestyn gwên yn ôl ar fy ngwyneb, ar ôl llyncu mul yr holl ffordd i lawr. Hefyd fy nghael yn ôl i dymer i wynebu gweddill y swyddi yr oedd taid wedi eu paratoi ar fy nghyfer. Fel doshio'r giât, weldio'r fuwch, injectio'r tractor a thrwsio'r oen.

Wnâi byth anghofio un pnawn Sadwrn yng nghanol y gacaf pan gefais, unwaith eto, fy ngorfodi i fynd yn y 'landrover',

ond gan ei bod hi ar y pryd yn bwrw hen wragedd a ffyn penderfynnodd taid mai dim ond danfon yr wyau i'w gymdogion yn y pentef oedd yn angenrheidiol y diwrnod hwnnw. Roeddwn wrth fy modd!

Pan gyrhaeddodd y pentref roedd fy hwyliau yn dal yn llawen nes i mi weld hon. Dechreuodd fy nhu mewn gorddi. Teimlais fy hun yn gwylltio'n gacwn a fy atgasedd at hon yn cryfhau fwy fwy pob eiliad. Blydi dafad golledig yn pori'n hamddenol braf wrth bwys y lôn! Gwyddwn yn iawn mai fi fyddai'r un anlwcus a fyddai'n cael y 'swydd bwysig', yn ôl taid, a oedd rêl y bugail da, i hebrwng y butan wlannog yma yn ôl i'w chynefin. Wrth ddychwelyd i'm hafan ar y pryd, sef y 'landrover', a'm gwallt yn 'friz' afreolus, fy ngholur wedi diflannu a'r masgara du 'Rimmel' yn gwmwl tywyll dros fy ngwyneb, roeddwn yn gandryll, a dweud y lleiaf!

Ond dim ond cychwyn fy mhrofiadau erchyll y diwrnod hwnnw oedd hyn. Yn dilyn y strach roedd yn rhaid gorffen danfon yr wyau ac, wrth lwc, fe giliodd y glaw. Gan fod Carmel yn bentref mor brydferth, mae Saeson yn bla dros y lle, ac i fferm Saesneg 'Plas-Jolly' yr oedd yr hanner dwsin olaf

CEFNOGWCH FUSNESAU LEOL



www.ceircymru.com

Bethel (01248) 670451

(Hefyd yng Ngherrig-y-Drudion)

Fel ewmni hoffem ddiolch i'r cannoedd o gwsmeriaid a gefnogodd ein busnes dros yr 15 mlynedd diwethaf. Rydym yn fusnes Cymreig sy'n amcanu i roi gwasanaeth ceir proffesiynol ac i werthu ceir am brisiau di-guro. Mac gennym brynwyr proffesiynol yn teithio dwy fil o filltiroedd yr wythnos i chwilio am y ceir gorau am y prisiau isaf.

Dymuniadau gorau ar gyfer 2005 i ddarllenwyr *Eco'r Wyddfa* ac ystyriwch hon fel adduned blwyddyn newydd: 'Rhowch gyfle i fusnesau Cymreig lleol ddangos eu gwerth yn hytrach na chwmanïau dyfod ac archfarchnadocdd Seisnig.'

 Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda 

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN
NEWYDD DDA ODDI WRTH
ANN A BILLY HUGHES
A STAFF

SIOP TREFLYN

 **BETHEL** 

Ffôn: (01248) 670106



Diolch am eich
cefnogaeth
drwy'r flwyddyn



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth barob yn

R. L. DAVIES
Coed Bolyn Mawr, Bethel
Offer i'w logi ar gyfer:

- tyllu *footings*
- clirio gorddi
- neu unrhyw waith
clirio safleoedd

Hefyd: Lie i wagio
sbwriel inert a
ffardcore ar werth

Ffoniwch am fanylion
(01248) 671300
neu (07775) 638620



**CYFARCHION
NADOLIG
BETHEL**

CYFLENWYR PORTHIAN
IDRIS MORRIS
BWYDYDD ANIFEILIAID ANWES
GWERTHWYR NWY A GLO

Y Fachell
Llanddeiniolen
Ffôn:
01248 670439



NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA

angen eu danfon. Gwyddwn mai Joe, Sais ifanc a golygus, oedd perchennog hon, a gan fy mod innau mewn cymaint o gyflwr penderfynais guddio yn y 'landrover.' Ond roedd y bos yn mynnu fy mod innau hefyd yn ymweld â'r teulu, felly fel cynffon i ganlyn taid i fyny at y tŷ yr es. Gobeithias na fyddai neb gartref ond er mawr siom i mi daeth Joe i'r drws a dweud, 'Good afternoon,' yn ei lais dyfn, soffistigedig. Teimlais yn benysgafn a gwên hamddenol yn tyfu ar fy ngwyneb, er y diwrnod ofnadwy. Ond mi ddisgynnias yn ôl i realiti yn ddigon buan o glywed ymdrech druenus taid o'i ateb. 'Haw ar iw?' meddai yn ei lais Cymreigaidd. Cawsom ein gorfodi i fynd mewn i'r tŷ gan ei bod hi braidd yn oer. Roedd Joe ar ganol rhoi llawr newydd yn y gegin, felly y llawr fu cynnwys y sgwrs ryfedd yma rhwng Joe a taid am rhyw ddeng munud neu fwy. Gyda taid yn dweud 'yes no' ar ôl pob brawddeg, a'r Sais yn syllu'n syn. Agosáu at y ddôr wnawn i bob tro y dywedai taid rywbeth gwirion, mewn ymgais i drïo cuddio fy nghywilydd.

Ymhen hir a hwyr dyma'r frawddeg fwyaf dychrynlyd fyth yn cael ei dweud gan taid - 'Ail get iw HARD-COCK,' meddai mewn llais caredig, yn trio bod o gymorth i Joe. Teimlais fy hun yn cochi a chwys yn powlio oddi ar fy nhalcen. Gweddïais i'r Arglwydd y buasai'r llawr yn agor a fy llyncu i'w grombil. Dywedais mewn cywilydd, 'He means hardcore for the floor,' mor bwyllog ac yr oeddwn yn gallu, cyn troi ar fy sawdl ac anelu yn syth am y drws i gael dianc o'r sefyllfa annifyr i'r 'landrover', a oedd yn hafan am yr ail waith y diwrnod hwnnw.

Fc henciddiodd taid yn frawychus ar ôl y cyfnod bywiog yma, ac o ganlyniad i hynny yng nghartref cysurus Plas Gwilym, dan ofal caredig y nyrsys y treuliodd ei wythnosau olaf. Ond er ei henaint, roedd ei gog o'n iawn, ac roedd ganddo'r ddawn o hyd i godi cywilydd arnaf.

Yng nghwmni Yncl Bill treuliodd ei ddiwrnodiau yn y lolfa yn smocio, wrth gwrs. Sais pur oedd hwn a oedd yn gaeth i'w gadair olwyn. Rocdd y ddau yn hollol i'r gwrthwyneb, Yncl Bill yn siarad Saesneg safonol yng nghanol yr holl besychu drwg o ganlyniad i'r smocio, a taid yn mwman rhyw hanner Saesneg Cymreigaidd difyncdd. Daw yn unig a wyr sut yr oedd y ddau yn cyfarthrebu yn llwyddiannus, ond roeddynt yn falch o gwmi ei gilydd.

Problemau gyfathrebu gafodd mam a fi un nos Iau, tronsiau oedd y pwnc. Cymydog i taid, a

oedd hefyd yn aros yng nghartref Plas Gwilym, oedd perchennog y tronsiau newydd sbon yma ond eu bod yn rhy fach iddo. Mynnai taid fod Yncl Bill yn eu cael a dywedodd hanes y tronsiau yn ei iaith 'double-dutch' ei hun. 'Shorts' oeddynt yn gyntaf, wedyn 'under-shorts' ac ar ôl munudau o gnoi cil daeth y term cywir o 'under-pants.' Doedd dim pwrpas i mam neu fi fusnesu yn y sgwrs 'bwysig' neu gwylltio fuasai taid. Teimlais ryddhad ar ôl yr holl halibalw fod Yncl Bill wedi deall yr hanes o'r diwedd ond yna, er ei bod hi'n hwyr, roedd taid yn benderfynnol o 'nôl y tronsiau y funud honno. Aeth rownd y cartref fel iâr wedi colli'i phen gan ddeffro'r rhan fwyaf o'i gymdogion, yn trio cael hyd i'r tronsiau. Yna, heb gael lwc, dechreuodd siarsio'r holl nyrsys i chwilio amdanynt. Creodd andros o drafferth a doedd dim modd newid ei feddwl! Yng nghanol yr holl helynt gwyro fy mhen dan gywilydd wnes i unwaith eto yng nghwmni taid.

Rhyfadd ydi meddwl yn ôl yn awr, pa mor falch o'r holl adegau y gwnaeth taid lwyddo i godi cywilydd arnaf yr ydw i. Braf yw cael yr atgofion melys yma. Mi fuasai'n nefoedd ar y ddaear cael neidio i mewn i'r 'landrover' unwaith eto am drip, a mwynhau drewdod y baco.

Er mai fi deimlodd y cywilydd mwyaf, fi hefyd sy'n teimlo'r golled fwyaf achos fc oeddym ni yn 'dipyn o fets.'

Cerdd fuddugol Beth Gaffey a enillodd iddi y Tlws Cynradd

Tymhorau

Eira yn disgyn
Fel dŵr yn llifo.
Gwynt yn rhoio
A sgrechian,
Yn chwythu blanced gwyn
O eira i bob man.

Gwanwyn yn gynhesach,
Yr haul yn gwawrio
Yn gynt na'r Gaeaf.
Neb yn gwisgo sgarffiau a mcenig.
Pawb yn chwarae allan
Pan mae'r haul yn gwenu.

Yr haul ar 'i ucha
Yn gwenu ar 'i boethaf.
Pawb ar lan y môr
Yn gwenu ac yn chwarae
Yn hapus braf.

Dail yn disgyn
A newid eu llw
Fel ffrwydriad
Mewn siop baent.

Canlyniadau

Cyfarfod y Pwaw

Bl.0: Unawd: 1. Molly; 2. Tomos; 3. Jade. Llefaru: 1. Moli; 2. Rhian; 3. Tcni ac Elen. Meithrin: Unawd: 1. Sara; 2. Elan; 3. Ffion. Llefaru: 1. Elan; 2. Sara; 3. Rhys a Ffion.

Bl 1 a 2: Unawd: 1. Rhodri; 2. Gwion John; 3. Gwion Wyn. Llefaru: 1. Gwion John; 2. Rhydian; 3. Gruffudd Owen.

Bl. 1, 2 a 3: Unawd Piano: 1. Mari Tachwedd.

Parti Canu: 1. Parti Caio; 2. Parti Fflam.

Parti Llefaru: 1. Jac Do's Bethel; 2. Parti Gruffydd.

Parti Cerdd Dant: 1. Parti Brechdannau.

Bl. 3 a 4: Unawd: 1. Guto; 2. Caio; 3. Eiri. Llefaru: 1. Lois; 2. Eiri; 3. Sion Wyn.

Bl. 1-6: Unawd Cerdd Dant: 1. Lowri Ann. Unawd offeryn heblaw'r piano: 1. Manon Elwyn; 2. Gethin Griffiths; 3. Aron Hughes a Bronwen.

Bl. 4, 5 a 6: Unawd Piano: 1. Gethin Griffiths; 2. Manon Elwyn; 3. Bronwen.

Cyfarfod yr Hwyr

Bl. 5 a 6: Unawd: 1. Lowri; 2. Elin; 3. Gethin. Llefaru: 1. Gerallt; 2. Ildid; 3. Aron Gwyn. Meimio i record Gymraeg: 1. Bryn Fôn a'i Fand.

Bl. 4, 5 a 6: Parti Canu: 1. Parti Matsys; 2. Trŵps Bethel. Parti Llefaru: 1. Dawnsyr Bethel; 2. Y Jeifars.

Grŵp Offerynnol Cynradd ac Uwchradd: 1. Dwsin Del; 2. 3321.

Bl. 7-13: Unawd Cerdd Dant: 1. Huw Foulkes; 2. Enfys Roberts; 3. Catrin Jones. Unawd Alaw Werin: 1. Huw Foulkes; 2. Ceri Griffiths; 3. Carin Jones. Siarad Cyhoeddus: 1. Huw Foulkes.

Unawd offeryn heblaw'r piano: Bl. 7-9: 1. Sion; 2. Gwilym a Cai; 3. Angharad. Bl. 10-13: 1. Rhys; 2. Dewi; 3. Sion a Berwyn.

Bl. 7, 8 a 9: Unawd: 1. Catrin Jones; 2. Enfys Roberts. Llefaru: 1. Enfys; 2. Angharad; 3. Dyfan. Unawd piano: 1. Sion; 2. Marged; 3. Dyfan ac Angharad. Parti Canu Uwchradd: 1. Parti Emma.

Bl. 10-13: Llefaru: 1. Huw Foulkes; 2. Ceri Griffiths. Unawd piano: 1. Huw Foulkes. Unawd: 1. Ceri Griffiths; 2. Huw Foulkes; 3. Sion Foulkes.

Arlunio 2D

Cylch Meithrin: 1. Owain Lewis Jones; 2. Cara a Catrin; 3. Ywain a Huw Gwyn.

Ysgol Feithrin: 1. Sam; 2. Elin a Rhys; 3. Nathan a Nathaniel.

Bl. 0: 1. Emily ac Arta; 2. Tomos a Penny; 3. Adam ac Ifan.

Bl. 1: 1. Bethan; 2. Hari; 3. Lisa, Gwenno a Mathew.

Bl. 2: 1. Jessica a Lowri Pierce; 2. Erin a Gwenllian; 3. Guto.

Bl. 3: 1. Natalie; 2. Caryl ac Ifan; 3. Mari Tachwedd.

Bl. 4: 1. Dylan Huws a Bethan Gaffey; 2. Poppy a Lois Jones; 3. Fflur Huws ac Armando Morgan.

Bl. 5: 1. Ffion Gleoni Roberts a Laura Jane; 2. Anna Wyn Jones a Gleoni Sharpe; 3. Emma W. Roberts.

Bl. 5 a 6: 1. Carwyn; 2. Gwenno Roberts.

Collage

Bl. Derbyn ac 1 a 2: 1. Lowri Huws; 2. Ben Hunter; 3. Mathew a Ben Jones.

Bl. 3 a 4: 1. Elliot; 2. Phoebe a Glesni Fflur; 3. Caio.

Bl. 5 a 6: 1. Daniel Bell a Georgia; 2. Gwenno Roberts.

Bl. 7-9: 1. Llio Hywel; 2. Mollie.

Bl. 10-13: 1. Elan Rhys.

Pypedau/Tegan meddal/Tecstiliau

Bl. 3 a 4: 1. Phoebe.

Bl. 7-9: 1. Hannah Gwyn

Ffasiwn

Bl. 6 a iau: 1. Manon Elwyn.

Bl. 6: 1. Gerallt Jones; 2. Gethin Wyn; 3. Nathan Price a Cara Edwards.

Bl. 7-13: 1. Elan Rhys; 2. Catrin Jones.

Graffeg Cyfrifiadurol

Bl. 3 a 4: 1. Guto Sion; 2. Rhidian.

Bl. 5 a 6: 1. Aaron Hughes; 2. Gethin Wyn.

Bl. 7-9: 1. Dyfan Coles.

Bl. 10-13: 1. Elan Rhys; 2. Elan Rhys.

Ffotograffiaeth

Bl. 2 ac iau: 1. Mathew Jones; 2. Lisa; 3. Gwenno.

Bl. 3 a 4: 1. Iolo Hughes; 2. Guto Sion; 3. James.

Bl. 5 a 6: 1. Daniel Bell; 2. Carwyn; 3. Gerallt.

Bl. 7-9: 1. Marged Rhys; 2. Dyfan Coles a Greta; 3. Dyfan Coles.

Gwaith 3D

Bl. 2 ac iau: 1. Sion Alun.

Bl. 7-13: 1. Greta Jams.

Logo

Bl. 1-13: 1. Ceri; 2. Manon Elwyn; 3. Gwilym Rhys.

Tlws Celf Uwchradd: Ceri Griffiths.

Llên Cynradd

Dosbarth Meithrin: 1. Ffion Angharad; 2. Owain; 3. Sam.

Dosbarth Derbyn: 1. Ffion Haf Evans; 2. Ciron; 3. Eleri.

Bl. 1: 1. Gwion Wyn; 2. Gwion John; 3. Aron.

Bl. 2: 1. Rhodri; 2. Lowri Angharad; 3. Alaw.

Bl. 3: 1. Mari Tachwedd; 2. Gethin Llŷr a Megan; 3. Richard Lloyd Jones.

Bl. 4: 1. Beth Gaffey; 2. Guto Griffiths; 3. Poppy.

Llinell Goll

Bl. 1: Bethan Williams; 2. Rita Williams; 3. Blacn Parc.

Canlyniadau Clên

Bl. 5: 1. Gwenno Roberts; 2. Ildid Jones; 3. Anna Wyn Jones.

Bl. 6: 1. Gethin Griffiths; 2. Manon Elwyn; 3. Elin Owen.

Bl. 7-9: 1. Sion Elwyn; 2. Sion Elwyn; 3. Catrin Jones.

Bl. 10-13: 1. Manon Wyn Williams; 2. Huw Foulkes; 3. Aled Gwilym Jones.



Mae pawb o'r staff, Gwen, Lesley, a Lucy
SIOP SGLODION Y PENTREF
THE VILLAGE CHIPPY
WAUNFAWR, Ffôn: 650683

yn dymuno Nadolig Llawen a
 Blwyddyn Newydd Dda i bawb yn y pentref

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
 oddi wrth bawb yn

WELDPAR
CYMRU WALES
CANOLFAN OFFER WELDIO
WAUNFAWR Ffôn: 650720



*Nadolig Llawen
 a Blwyddyn Newydd Dda
 oddi wrth bawb yn*

SNOWDONIA FIRE PROTECTION
YR HEN EFAIL, WAUNFAWR
Ffôn: (01286) 650235

Hefyd: Uned 10 TIR LLWYD, BAE CINMEL (01745) 360445
 OFFER DIFFODD TÂN – masnachol ac i'r cartref
 OFFER CANFOD MŴG ar gyfer y cartref
 GOLEUADAU ARGYFWNG
 LARWM TÂN, a llawer mwy
 i'w gweld yn ein swyddfa.



NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN
NEWYDD DDA

i holl gyfeillion yr Antur ym
 mro'r Eco

Antur Waunfawr

01286 650 721 www.anturwaunfawr.org



Mae
LLEUFER, NELMA A TEGID
PRITCHARD



CANOLFAN CARPEDI
WAUNFAWR

Ffôn: (01286) 650 291

yn dymuno diolch am bob cefnogaeth yn ystod
 y flwyddyn

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i chiwi all.

- ★ O LEIAF 60 O WELYAU MEWN STOC
- ★ 5000 LLATHEN SGYŴR O GARPEDI
- ★ 40 O '3-PIECE SUITES'

NADOLIG LLAWEN A
 BLWYDDYN NEWYDD DDA
 ODDI WRTH BAWB YN NHAFARN Y

SNOWDONIA PARC

WAUNFAWR Ffôn: 650218

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn
 Dewch gyda'r trên stêm o Gaernarfon ac aros
AM GINIO DA!



Gadael Caernarfon 11.00, cyrraedd Waunfawr 11.35
 Gadael Waunfawr 13.00 neu 16.00,
 cyrraedd Caernarfon 13.50 neu 16.35
 Ffoniwch y dafarn i archebu eich bwyd ymlaen llaw
 A 'does dim rhaid dod ar y trên!
 Cofiwch... **bob dydd Sul...**
 cinio traddodiadol £5.95
 Bwyd cartref blasu
 o gynnyrch lleol

Brian a Rita Henderson

SWYDDFA'R
 POST

SIOP Y PENTREF

WAUNFAWR Ffôn 650589

- Holl docynnau'r Loteri Genedlaethol
- Cyflenwyr bwyd anifeiliaid – 'bulk' a rhydd
 – y rhataf yn lleol!
- Nwyddau groser, alcohol,
 cardiau MANWEB
- 'Paypoint' ar gyfer talu bob math o filiau
- Holl wasanaethau arferol Swyddfa'r Post

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Llawen



CARPEDI GERAIN OWEN

GWERTHWR CARPEDI, TEILS CARPED A FEINYL
CANNOEDD O DDEWIS O BATRYMAU A RHAI MEWN STOC

FFONIWCH UNRHYW AMSER; WAUNFAWR (01286) 650552

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i holl ddarllecwyr yr Eco.



Ymestyniad Ffôn wedi Torri?
 Angen rhai Newydd? os felly

FFONIWCH

(01286) 650247 neu (07780) 811617 (symudol)

Eifion Hughes (7 diwrnod)

*Gwasanaeth Da am Bris anhygoel
 Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda*

WAUNFAWR

Mrs Nan Roberts, Pantafon. Ffôn: (01286) 650570

Camera yn ngofal Heulwen Hughes, Argoed. Ffôn: (01286) 650556

Dyma restr o enillwyr y clwb 300 am fis Tachwedd

1. £40 Mrs Olwen Owen, 23 Tref Eilian; 2. £25 Ms Sylvia Thompson, 21 Bro Waen; 3. £10 Mrs Gladys Creasley, Minafon.

YMDDEOLIAD. Dymunwn yn dda i Mrs Ann Jones, Ael y Bryn, ar ei hymddeoliad o'i busnes ei hun yn siop Sparkles yng Nghaernarfon. YMDDEOLIAD. Dydd Gwener, Rhagfyr 3, daeth cyfnod yn hanes y pentref i ben gyda ymddeoliad Dr Raymond a Mrs Laura Williams o'r feddygfa yn Liverpool House. Mae Dr Williams wedi bod yn feddyg teulu yma ers dros ddeng mlynedd ar hugain a Laura yn rheolwraig y practis.

Dymunwn bob hapusrwydd a mwynhad iddynt yn eu hymddeoliad.

Dymunwn longyfarch Mrs Christine Roberts, Cae Caled, ar ei phenodiad i swydd Laura, a chroeso 'nôl i Dr Eyllt Llwyd ar ôl genediaeth ei merch fach, Nanw. ADREF O'R YSBYTY. Croesawn Mr Gwilym Madog Jones adref wedi iddo dreulio cyfnod yn yr ysbty. Gobeithio y byddwch yn teimlo'n well wedi cael dod adref. CARTREF NEWYDD. Dymunwn yn dda i Sian a Gethin ar eu haelwyd newydd yn Llain Alaw ac i Mrs Margaret Jones yn ei chartref newydd 'Y Dalar Deg'.

APÊL. Ni ddarllenwyr yr Eco yn Waunfawr fydd yn cael y cyfrifoldeb o blygu'r rhifyn nesaf o'r Eco. Byddwn yn gwneud y gwaith yn Ffestri Capel y Waun,

gan gychwyn am 5 o'r gloch ar nos lau olaf mis Ionawr. Plis dewch draw i roi help llaw.

DYMNUNWN bob hapusrwydd i bawb dros Wyl y Nadolig a'r flwyddyn newydd. Anfonwn ein cofion at y rhai sy'n gaeth i'w cartref ac sydd ar hyn o bryd mewn cartrefi preswyl.

YSGOL WAUNFAWR

Rydym ynghanol bwrlwm a physurdeb y Nadolig. Mae plant Adran y Babanod wedi bod yn ddiwyd yn addurno moch coed, a gellir eu gweld a'u prynu ym Meithrinfa Fron Goch. Hoffwn ddiolch i blant yr Adran lau a aeth i ganu carolau yn y Noson Fins Peis yn yr Antur ar 26 Tachwedd. Da iawn chi, roedd pawb wedi mwynhau eich clywed yn canu.

Bu Anti Margaret ac Anti Sylvia yn ddiwyd yn paratoi cinio Nadolig blasus ar ein cyfer ddydd lau, 9 Rhagfyr. Cafwyd cystadleuaeth het Nadolig, a chawsom ymweliad gan Siôn Corn yn ystod y prawn.

Cynhelir ein cyngherddau Nadolig eleni yn y Ganolfan: sioc Adran y Babanod ddydd Mawrth, 14 Rhagfyr am 6.30. Bydd yr elw yn mynd tuag at brynu offer chwarae mawr i Adran y Babanod.

Bydd yr Adran lau yn cymryd rhan mewn cyngerdd gyda Chôr y Waun nos Fercher, 15 Rhagfyr am 7.30 a bydd elw y noson honno yn mynd tuag at Eisteddfod Genedlaethol Eryri a'r Cylch. Gobeithio y bydd y neuadd yn orlawn ar y ddwy noson.

Rydym yn gwerthu Calendrau

2005 fel rhan o ymgyrch y Gymeithas Rhieni ac Athrawon i godi arian i'r ysgol. Gallwch brynu Claendr un ai yn siop Brian neu o'r ysgol am £2.50. Mae beiros arbennig ar werth yn ogystal.

Bydd plant yr Adran lau yn canu carolau tu allan i siop Morrisons yng Nghaernarfon ddydd lau, 16 Rhagfyr am 1.30 o'r gloch. Dewch i wneud eich siopa Nadolig a chefnogi'r plant yr un pryd.

I gloi'r tymor byddwn yn cynnal

Disgo Nadolig yn y Ganolfan bawn dydd Gwener, 17 Rhagfyr a daw Meinir Gwilym yno i'n diddanu.

Carwn ddymuno Nadolig Llawen iawn i holl ffrindiau'r ysgol. Diolch i chwi am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn a boed i 2005 fod yn flwyddyn ddedwydd i bawb. DYMUNA Heddu Gwynedd ddiolch i'r holl bentrefwyr am eu cymorth ac i berchennog a staff Snowdonia Inn am eu cefnogaeth i Luis.



Plant hynaf ysgol Waunfawr yn eu gwisg ffansi.

BWS BACH AR LOG

Bws 22 sedd ar gael ar gyfer pob math o logi preifat – nosweithiau allan, partïon, triapiau ac ati. Gwasanaeth personol a thelerau rhesymol gan



D. P. OWENS

RHIWLAS

01248-361044

NADOLIG LLAWEN
A BLWYDDYN
NEWYDD DDA
LLOGWCH FWS
I'W DDATHLU'N
DDIOGEL

LLYSIAU, FFRWYTHAU, BWYDYDD
AC ANGHENION ANIFEILIAID ANWES

GARTH MAELOG

51 Stryd Fawr, Llanberis

Ffôn: 870840

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Am Offer Tŷ a Gardd...

FORMAG

Nadolig Llawen
a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth Ifor a Margaret

41A STRYD FAWR, LLANBERIS

Ffôn: (01286) 872501



Athrawon Waunfawr yn dra gwahanol i'r arfer!!



Skoda Octavia 2.0 TDI PD Elegance

ŠKODA OCTAVIA



Nadolig Llawen

a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

John Ferrarese a'r staff

MODURDY PANT Y WAEN

WAUNFAWR Ffôn: 650524

CYFARCHION
NADOLIG
WAUNFAWR



TAITH YR ORSEDD

Mae Cwmni Teithiau Seren Arian yn trefnu bws i fynd i Seremoni Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Abertawe a'r Cylch ar ddydd Sadwrn, 25 Mehefin. Dyma pryd y gorseddir yr Archdderwydd newydd, y Prifardd Selwyn Griffith. Bwriedir cychwyn yn gynnar fore Sadwrn, fel y gall aelodau o'r Orsedd gymryd rhan yn yr Orymdaith. Ar ôl y seremoni, mynd i Gaerdydd i gael cinio a threulio'r nos yng Ngwesty'r Marriott. Cychwyn adre brynhawn Sul ar ôl cael cyfle i siopa. Pris £79.

Tri Gŵr Doeth

Pwy sy'n dyfod dros ael y bryn
Ar gefn eu camelod i lawr drwy'r glyn,
Ac ôl eu traed yn yr eira gwyn?
Y tri gŵr doeth.

Pwy sy'n dod i'w addoli Ef
Gan ddilyn seren ddisgleiria'r Nef,
O'r dwyrain draw i Fethlehem dref?
Y tri gŵr doeth.

Pwy sy'n penlinio wrth wely o wair
Yn y beudy llwm heb sibrdw gair,
Gan roddi anrhegion i Faban Mair?
Y tri gŵr doeth.

Pwy sy'n dychwelyd i fyny'r glyn
Ar gefn eu camelod dros ael a bryn,
Ac ôl eu traed yn yr eira gwyn?
Y tri gŵr doeth.

SELWYN GRIFFITH

PENISARWAUN

Mrs Ann Evans, Sycharth. Ffôn: (01286) 872407

EISTEDDFOD BENTREF.

I ategu at lwyddiant yr Eisteddfod eleni trenfwyd **Cwis** ar gyfer y bobl ifanc gan Geraint George, a braf oedd gweld dros ugain ohonynt yn mwynhau eu hunain ar y llwyfan. Diolchir iddynt am gefnogi'r Eisteddfod a hynny hyd y diwedd. Diolchir hefyd i Geraint George am ei barodrwydd i ddiddori'r ifanc fel hyn.

Canlyniadau

Plant Meithrin a chyn oed ysgol.
Adrodd: 1. Catrin Sara a Catrin Elen;

Uned Feithrin a chyn oed ysgol.
Canu: 1. Moi; 2. Catrin Elen a Catrin Sara. **Gwaith Llaw:** 1. Moi; 2. Catrin Sara. **Arlunio:** 1. Magi; 2. Lois a Celyth; 3. Jordan a Ianto.

Bl Derbyn. **Adrodd:** 1. Lois; 2. Ianto a Celyth; 3. Anya, Magi, Emily a Jordan. **Canu:** 1. Lois; 2.

Emily; 3. Anya, Celyth, Magi, Jordan a Ianto. **Gwaith Llaw:** 1. Magi; 2. Jordan. **Rhyddiaith:** 1. Magi; 2. Lois; 3. Emily.

Bl 1 a 2. **Adrodd:** 1. Ceinwen; 2. Nia; 3. Sion a Caitlin. **Canu:** **Cwpan Eluned Porter** 1. Tanya; 2. Caitlin; 3. Nia, Siôn, Ceinwen a William. **Arlunio:** 1. Hannah; 2. Mared a William; 3. Ceinwen a Siôn. **Gwaith Llaw:** 1. Caitlin; 2. Tanya a Gwydion; 3. Ceinwen a Siôn.

Rhyddiaith Bl 1: 1. Sophie; 2. Paige a Nia; 3. Caitlin. *Bl. 2:* 1. Mared; 2. William; 3. Jordan.

Blwyddyn 2 a iau. **Coginio:** 1. Ceinwen; 2. Gwydion; 3. Tanya. **Parti Canu Bl 0, 1, a 2:** **Tlws Mrs Thomas.** 1. Parti William.

Bl 3 a 4. **Adrodd:** 1. Claire; 2. Sophie a Cerin; 3. Nia. **Canu:** 1. Sophie; 2. Claire; 3. Siôn a Cerin.

Rhyddiaith: 1. Nia; 2. Molly; 3. Claire. **Arlunio:** 1. Molly; 2. Nia a Sophie; 3. Siôn Maxwell a Sean Powell. **Gwaith Llaw:** 1. Sophie; 2. Sean Powell; 3. Claire. **Gwaith Cyfrifiadur:** 1. Nia; 2. Sophie ac Ashley; 3. Nathan a Molly.

Bl 5 a 6. **Adrodd:** 1. Glesni; 2. Catrin Jarvis a Catrin Heledd; 3. Elen a Katie. **Canu:** 1. Katie; 2. Catrin Heledd; 3. Elen. **Rhyddiaith:** 1. Siôn Dafydd; 2. Catrin Jarvis; 3. Elen. **Arlunio:** 1. Siôn Llwyd; 2. Dewi a Catrin Jarvis; 3. Katie a Bryn. **Gwaith Llaw:** 1. 'Bill'; 2. Marc. **Gwaith Cyfrifiadur:** 1. Glesni; 2. Liam a Carwyn; 3. Siôn a Catrin Heledd.

Coginio Bl. 3,4,5 a 6: 1. Catrin Heledd; 2. Sean Powell; 3. Sophie a Marc. **Parti Canu:** **Cwpan Phyllis Ellis** 1. Parti Ceri.

Oedran Cynradd. **Ffotograffiaeth:** 1. Catrin Heledd; 2. Nia Elyllt Griffiths. **Parti Adrodd:** **Cwpan Bob Williams** 1. Parti Catrin. **Unawd Piano:** 1. Sophie a Catrin. **Unryw lun ar gyfrifiadur:** 1. Cai; 2. Siôn Dafydd; 3. Nia Elyllt Griffiths. **Meim i record Gymraeg:** 1. Catrin

Heledd a Katie. **Alaw werin:** 1. Catrin Heledd; 2. Katie. **Darllen o'r Beibl:** 1. Catrin Heledd; 2. Sophie.

Tarian yr Eisteddfod i'r Prif Lenor: Siôn Dafydd.

Unryw Ddawns Unigol: 1. Grŵp Anna.

Bl 7,8 a 9. **Canu:** 1. Anest. **Rhyddiaith:** 1. Bethan; 2. Anest. **Arlunio:** 1. Bethan; 2. Rhian; 3. Anna. **Gwaith Llaw:** 1. Tal. **Coginio:** 1. Bethan; 2. Anna; 3. Spider Man ac Anest.

Oedran uwchradd. **Unawd Piano:** 1. Lois; 2. Anest ac Anna. **Cân ysgafn dan 18 oed:** Sion Dafydd. **Unryw boster, cyfrifiadur:** 1. Anna; 2. Megan Glyn; 3. Rhian a Bethan.

Cwpan yr Eisteddfod i'r Prif Lenor: Bethan Williams.

Deuawd Agored: 1. Anest a Siôn; 2. Elen a Katie / Catrin a Catrin. **Ffotograffiaeth:** 1. Catrin Elin Griffiths; 2. Sioned Mai.

Oedolion. **Parti Adrodd:** 1. Parti'r Pentref. **Band y Garej:** 1. Parti'r Pentref. **Gwaith Llaw:** 1. Helen Williams; 2. Helen Williams.



Bethan Mai Williams, Brynrefail, enillydd cystadleuaeth Prif Lenor Oed Uwchradd.

R.M. (DIC) PARRY

PEINTIWR AC ADDURNWR

PRISIAU RHESYMOL

TAWELFA, PENISARWAUN

Ffôn: (01286) 870846

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i ddarlennwyr yr Eco

Nadolig Llawn
a diolch am eich
cefnogaeth
oddi wrth

Alwyn a Sarah Penisarwaun Ffôn 870605

- Rithoedd Celyn, Coed Nadolig a 'Crem Pots'
- Basgedi Planhigion, Blodau Ffres a Silo
- Dantfen blodau 7 diwrnod yr wythnos drwy'r fro
- Gwasanaeth Tudalennau
Siarad/Talking Pages 118 247
- Hefyd, Bouquets Nadoligaidd



RHODD O'R GALON YW BLODAU

Cyfarchion

Dylan Griffith

Y Tymor

TREFNWR ANGLADDAU ANNIBYNNOL a LLEOL
TROS-Y-WAEN, PENISARWAUN

Yn gwasanaethu'r holl ardal, yn cynnwys:

PENISARWAUN, DEINIOLEN, LLANRUG A LLANBERIS
Gwasanaeth teimladwy,
urddasol a phersonol.
24 awr y dydd

Ffoniwch: **Dylan (Llys) ar 871833**

Symudol: **07778 127394**

HEFYD

CERBYDau CLASUROL YR WYDDFA



Cyrhaeddwch mewn steil - mewn cerbyd Rolls Royce
ar gyfer priodasau, pen-blwyddi ac
achlysuron arbennig eraill

Bistro

LLANBERIS

Ffôn 871278

www.ybistro.co.uk

Perchnogion: **DANNY a NERYS ROBERTS**

Nadolig Llawn a Blwyddyn
Newydd Dda i holl ddarlennwyr yr Eco



Siôn Dafydd, enillydd Tarian Prif Lenor Oed Cynradd.

Coginio: 1. Janice Jones; 2. Martin Davies a Tony Bate. **Ffotograffiaeth:** 1. Marian Griffiths. **Grŵp Cân Ysgafn** 1. Parti Tony Aloma a'r Greshams. **Parti Canu:** 1. Parti'r Pentref.

Gorffen Limrig: 1. Siôn Dafydd.

YR YSGOL GYMUNEDOL.

Cafwyd ymateb da iawn i ddiwrnod 'Plant Mewn Angen'. Roedd holl ddisgyblion yr ysgol a'r staff wedi gwisgo mewn gwisg ffansi ac roedd cymeriadau lliwgar iawn yn cerdded o amgylch y pentref yn casglu arian. Ond sicrhodd Angylion Charli bod pawb yn ddiogel.

Ond pwy ddyfalwch chi oedd Anti Liz, Anti Gwenda ac Anti Carol? A oeddynt yn drigolion o'r pentref? Pwy a wyr. Casglwyd £160 tuag at yr elusen. Diolch i bawb a gyfrannodd ac a ymunodd yn yr hwyl.

Ffair Nadolig. Bu llawer o ddisgyblion, rhieni, teuluoedd a

ffrindiau yn y ffair Nadolig. Roedd cyfle i bawb fwynhau paned a mins pei ar ôl gwario o amgylch y stondinau. Bu Siôn Corn yn brysur drwy'r nos yn ei groto liwgar. Gobeithio nad yw wedi blino gormod i ymweld ar noswaith Nadolig. Gwnaethpwyd elw o £483 tuag at Gyfeillion yr Ysgol. Diolch i rieni a chyfeillion am drefnu'r noson.

Swper Olaf. Bydd chwith mawr i'r ysgol yn dilyn ymddeoliad cynnar Anti Janice, sef cogyddes yr ysgol ers deunaw mlynedd. Mae'r disgyblion a'r athrawon wedi cael eu sbwilio'n lân gan fwyd cartref Anti Janice. Pob lwc iddi.

Digwyddiadau. Bydd holl ddisgyblion yr ysgol yn ymweld â phantomeim 'Branwen' yn Theatr Gwynedd ar 13 Rhagfyr.

Roedd cyfle i ddisgyblion Meithrin, Derbyn, a blwyddyn 1 a 2 gael ymweld â Pili Palas ar 16 Rhagfyr. Byddant yn cael gweld yr arddangosfeydd, cael lluniaeth ysgafn a chyfarfod â Siôn Corn a derbyn anrheg ganddo. Fe fydd o wedi ymlâd ar ôl siarad hefo 30 o ddisgyblion yr ysgol.

Taith Breswyl i Gaerdydd. Mae 23 o ddisgyblion yn edrych ymlaen at fynd ar daith breswyl i Gaerdydd fis Chwefror. Cânt y cyfle i aros yng ngwersyll newydd yr Urdd yng Nghanolfan y Mileniwm a gweld amrywiaeth o atyniadau addysgol. **URDD ADRAN BENTREF.**

Bydd yr Adran yn ailgychwyn ar nos Fercher, wedi i'r ysgol ddechrau yn Ionawr 2005.

DIOLCH. Dymuna Betty, Len, Llifon a Lona a'r teulu i gyd ddiolch i bawb am y llu cardiau a rhoddion a dderbyniwyd ganddynt wedi eu colled fawr o golli mam, nain, hen nain a hen, hen nain, sef Mrs Katie Williams, 8 Llys y Gwynt gynt.



Dros ugain o bobol ifanc y pentref yn mwynhau Cwis yng ngofal Geraint George. Llwyddiannus iawn a diolch i'r ifanc am fod yno.



Band Gareg effeithiol a disgybledig iawn yn ol y beirniad.

YSGOL SUL BOSRA. Bnawn Sul, 12 Rhagfyr, cafwyd 'Sul y Teulu' yng ngofal Mr Merfyn Jones, Caernarfon ac aelodau'r Ysgol Sul. Diolchir i'r plant am eu gwaith canmoladwy ac am eu ffyddlondeb i'r Ysgol Sul. Fe ddaeth Siôn Corn i'w gweld i gyd gan addo dod i bob tŷ ar noswyl Nadolig. Mwynhawyd mins pei ar y diwedd a diolchir i Anti Bronwen am eu paratoi bob blwyddyn fel hyn.

PWYLLGOR NEUADD. Bu Noson Siôn Corn yn y Neuadd Gymuned, nos Iau, 16 Rhagfyr gydag amrywiol stondinau, peintio wynebau a raffl fawr ynghyd â Groto Siôn Corn. Tynnwyd Clwb Cant a'r enillwyr oedd: 1. Robin Griffith, Groeslon Isaf; 2. Alice Morris, Cae'r Waun; 3. Gwyneth Owen, Minffordd.

Dymunir diolch i holl aelodau ffyddlon y Clwb Cant am eu cyfraniad drwy 2004, gan obeithio y cawn yr un gefnogaeth yn 2005. Atgoffir chwi yn garedig yr adnewyddir yr aelodaeth ym mis Ionawr, 50c y mis neu £6 y

flwyddyn, neu fe ellir talu drwy archeb banc os dymunir. Buasaem yn hynod falch o fwy o aelodau gan fod y Clwb Cant yn hwb sylweddol tuag at y costau o redeg y Neuadd.

EGLWYS SANTES HELEN. Noswyl y Nadolig, 9.00 yr hwyr. Gweinyddir Cymun Bendigaidd y Nadolig. 26 Rhagfyr, 10.30.

Cymun Bendigaidd Undebol i blwyfi Llanfairisgaer, Llanddeiniolen a Pheniarwaun, yn Eglwys Santes Helen.

Llyfrau Ariannol yr Eglwys. Fe fydd Llyfrau Ariannol 2004 yn cau ar Sul, 26 Rhagfyr. Diolchir i bawb am ei cyfraniadau yn ystod y flwyddyn.

YMDDEOLIAD HAPUS. Dymunir ymddeoliad hapus i Janice Jones, Perthi a Jean Roberts, Tai Croesion. Mwynhewch eich ymddeoliad.

HWYL YR WYL. Dymunir Nadolig Dedwydd a Blwyddyn Newydd Fendithiol i chwi oll.



Parti Canu'r Babanod, 'Mae'r bysedd sydd yn clicio.'

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

ODDI WRTH

KMP LLANBERIS

DIOLCH I BAWB A'N CEFNOGODD YN YSTOD Y FLWYDDYN

Dim bysus dydd Nadolig na Gŵyl San Steffan, 25 a 26 Rhagfyr.

Gwasanaeth Dydd Sul ar Ddyddiau Llun a Mawrth 27 a 28 Rhagfyr.

Dim gwasanaeth Dydd Calan 1 Ionawr 2005. Gwasanaeth Dydd Sul ar 2 a 3 Ionawr.

NADOLIG
LLAWEN A
BLWYDDYN
NEWYDD DDA
ODDI WRTH



**Wavell
Roberts**

CIGYDD

LONDON HOUSE
LLANRUG

Ffôn: Caernarfon

673574

PEN CIGYDD
Y FRO

MYNNWCH Y GORAU
A DEWCH ATOM NI

Dysgwch yrru'r car gydag

Y.Y.O.

Ysgol Yrru Ofalus

- ★ Gwasanaeth 7 diwrnod
- ★ O ddrws i ddrws
- ★ Control Deuol

D L


PRITCHARD

43 Glanffynnon, Llanrug

Ffôn: C'fon 675112

Cymeradwy gan yr Adran Drafnidiaeth

Nadolig Llawen a Blyddyn
Newydd Dda i bawb



**GWYNANT
PIERCE**

Cynyrchion Coed:-

Gatiau, Ffensus ac ati
am brisiau cystadleuol

Uned 1, Fferm Bryn Afon

LLANRUG

ffôn: (01286) 650349

neu 674183

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN
NEWYDD DDA I BAWB

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd
Dda oddi wrth **Elaine, a staff**

SIOP DRIN GWALLT



LLANRUG, Ffôn: 672023

ORIAU AGOR

Mawrth	9.00 - 7.00
Dynion yn unig (Elaine a Sharon)	3.30 - 7.00
MERCHER	9.00 - 1.00
Dynion yn unig (Wendy)	6.00 - 8.00
IAU	9.00 - 8.00
GWENER	9.00 - 8.00
SADWRN	7.30 - 6.00

- Dydd Mawrth a Dydd
Mercher i bensynwyr
- Coluro ar gyfer
achlysuron arbennig
- Gwasanaeth arbennig
ar gyfer priodasau

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth
Jackie Turner a'r staff



Y SGWÂR, LLANRUG

Ffôn: (01286) 672790



AR AGOR BOB DIWRNOD
HEBLAW DYDD NADOLIG
A DYDD SAN STEFFAN
25 a 26 RHAGFYR

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth bawb yn



ARVONIA

LLANRUG Ffôn: 01286 675175

GWYLIAU CARTREF A THRAMOR


Cwmni teuluol gydag 20 mlynedd o brofiad o
reddeg Pecynnau Gwylliau oll-gynhwysol

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

**Y SGWÂR
LLANRUG**

Crefftwyr gwaith
llaw traddodiadol
Cerrig o bob
math ar gael

Ffôn: (01286)
672898 (dydd)
676285 (nos)



J.M.
JONES

A'I FEIBION

GWAITH
CERRIG
BEDDAU

GWYN JONES

FFENESTRI ERYRI

GARTH ISAF, LLANRUG

(01286) 650764

neu

07050 357735



- FFENESTRI
- DRYSAU
- DRYSAU PATIO
- PORCHES
- BYRDDAU FFASIA
- CLADIO
- CONSERFATERIS

BLNYDDOEDD O BROFIAD YN Y MAES

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth



FFENESTRI

CELTIC WINDOWS



Sefydlwyd
1980

FFENESTRI • DRYSAU • CONSERFATERIS
CYFLENWYR AWDURDODAU LLEOL

Busnes teuluol gyda blynyddoedd o brofiad
Ffoniwch - 'dio'n costio dim i gael pris

(01286) 678618 (dydd)
(01248) 670081 (nos)



HEN YSGOL GLANMOELYN
LLANRUG LL55 2RG



LLANRUG

Eryl Roberts, 3 Bryn Moelyn. Ffôn: (01286) 675384

DYMUINIADAU GORAU i bawb dros Wyl y Nadolig.

SEFYDLIAD COFFA. Clwb Cant Rhagfyr: 1. (44) Mrs J. Jones, 4 Disgwylfa; 2. (97) Mrs L. Jones, Tremynfa; 3. (6) Mrs G. Kirkpatrick, 21 Hafan Elan.

DIOLCHIADAU. Carai Llinos Parry, Warden Hafan Elan, ddiolch i bawb a aeth i'r aduniad yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis, yn ddiweddar am eu haelioni tuag at gronfa'r Ganolfan yn Hafan Elan. Codwyd swm o £107.71 ar y noson.

PRIODAS. Dymuniadau gorau i Gethin Parry a Jane Thomas a briodwyd yng Nghapel Felinheli dydd Sadwrn, 26 Tachwedd, a'r wledd yn dilyn yng Ngwesty Meifod, Bontnewydd. Mae'r cwpwl wedi ymgartrefu yn Berthgylid, Stad Minffordd.

EISTEDDFOD GENEDLAETHOL ERYRI A'R CYFFINIAU. Pwyllgor Llanrug. Fe lawnsiwyd y CD yn Ffair Nadolig yr Ysgol Gynradd. Cofiwch fod copiâu ar gael gan aelodau o'r Pwyllgor a Goronwy Hughes, Eithinog, Afon Rhos.

Bydd mwy o wybodaeth am y gweithgareddau yn rhifyn mis Ionawr.

PEN-BLWYDD ARBENNIG.

Llongyfarchiadau mawr i Jason Jones, Groeslon Marc ar ddathlu ei ben-blwydd yn 18 oed.

TEYRNGED. Cyflwynedig i deulu Anna Williams a laddwyd mewn damwain ffordd yn gynharach y flwyddyn hon - gwraig annwyl Marc, mam Cara ac Aaron, merch Fflo a Gwyn Aerau Jones, 11 Tai Lleuar, Pontllyfni a merch yng nghyfraith John Gwyndaf a Meinir Price Williams, Arwelfa, 22 Bryn Moelyn, Llanrug

Colli Anna (Creulondeb Ffawd)

Wrth edrych heddiw ar ei thad a'i mam
Yn ysgid dan orthrymder dwys a blin
O'i cholli hi, heb arni fai na nam,
Yn anterth oes oedd lawn a theg ei hin,
Griddfannaf yn fy enaid drostynt hwy,
A loes ei hannwyl blant a chroes ei gwr
Sy'n ennyn ynof dosturiaethau mwy
Na holl ddiodeffaint pell y byd a'i stwr.
Ond er trychineb mawr ei ffawd, a'r siom
A loriodd frawd a'r fro adwaenai hi,
Bydd rhaid dyrchafu'r brofedigaeth drom
Yn ddathlu llon o'r hyn a fu i ni,
Gan ddiolch, er mor erchyll yw y byd,
Mai cudd yw pob tyngedfen cyn ei phryd.

ELWYN PRITCHARD-JONES

YR YSGOL GYNRADD

Eleni eto cafodd genethod bach Blwyddyn 2 gyfle i berfformio'r Ddawns Ffodau yn Eisteddfod Ysgol Brynrefail ac Eisteddfod y Pentref. Diolch i Mrs Evans am eu dysgu ac i Miss Williams am fynd i'w cefnogi.

Ddydd Gwener, Rhagfyr dydd roedd hi'n ginio Nadolig yma - Ew roedd o'n flasus! Diolch i staff y gegin unwaith eto.

Brynhawn iau, daeth Mr Dafydd Roberts i'r ysgol i recordio disgyblion yr ysgol yn canu carolau Nadolig. Roedd ynt yn eu bwrdd yn gwrando arnynt eu hunain yn canu wrth iddo chwarae'r tapiau yn ôl i'w dynt.

Rwy'n siwr eich bod i gyd erbyn hyn wedi gweld yr hysbysab ar y teledu yn ein hannog i ailgylchu gwastraff, ac wrdi olynoddoli mai Llyndsey Thomas o Flwyddyn 6 yd'i arhys sydd yn ein darbyllio i ailgylchu.

Ffair Nadolig. Cafwyd Ffair Nadolig brysur iawn yn yr ysgol gyda Siôn Corn yn cyrraedd a'i sach yn llawn anrhegion i'r plant. Roedd ei sach yn eitha llawn wrth iddo adael hefyd - yn llawn llythrau yn gofyn 'Os gwelwch yn dda Siôn Corn, a fydd hi'n bosib i mi gael... y Nadolig hwn. Rydw i wedi bod yn blentyn da drwy'r flwyddyn.'

Ar ran Pwyllgor ffrindiau'r ysgol diolchodd y prifathro i bawb a alwodd heibio i gefnogi'r weithgaredd, i staff y gegin am y banded a'r mins pei, i Meinir Gwilym a Susan Williams am ein difyrro â chaneuon, ac i'r busnesau lleol a gyfrannodd at y raffl.

Wedi'r nosweithiau agored i rieni gael trafod gwaith eu plant, bu prysurdeb mawr yn paratoi ar gyfer y cyngherddau Nadolig. Bu tri chyngherdd, plant yr Adran Iau yn perfformio eu drama 'Parti Noswyl Nadolig' yn neuadd Ysgol Brynrefail, disgyblion y dosbarth meithrin yn perfformio 'Yr Anrheg Nadolig' yn neuadd yr ysgol fore dydd Mawrth, a phlant y Dosbarth Derbyn, a Blwyddyn 1 a 2 yn perfformio eu drama hwy, 'Y Goeden Ryfeddol' dair gwaith yn neuadd yr ysgol. Diolch i Mrs Carol Williams am baentio wynebau'r plant ac i Rhys Huws am ddod i helpu'r 'band'.

Diolch i'r rhieni am eu cefnogaeth, roedd y neuadd yn llawn ar gyfer pob perfformiad, a'r plant wedi dysgu eu gwaith yn dda iawn. Does dim amheuaeth na fydd Siôn Corn yn siŵr o alw heibio pob un ohonynt noswyl Nadolig.

Dymunwn Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb. Mwynhewch eich gwyliau a gwelwn chi yn ôl yn yr ysgol fore dydd Mercher, Ionawr 5ed, gan fod dydd Mawrth yn ddiwrnod hyfforddiant i'r athrawon.

Côr Clychau'r Grug

Unwaith eto celeni mac'r Côr wedi cael blwyddyn llawn gyda'r gweithgareddau yn cychwyn ym mis Mawrth yn diddanu'r henoedd yng nghartrefi'r cylch. Ym mis Mai, croeso'r bont i Fôn i gynnal noson i gangen Llangefni o Ferched y Wawr. Fe ddaeth misoedd yr haf wedyn ac ymwelwyr yn aros yng Ngwesty'r Fictoria, Llanberis, yn cael eu diddanu gan y Côr. Mae'r croeso bob amser yn un gwrcsog gan y rhai sydd ar eu gwyliau o bob rhan o Brydain Fawr. Ar ôl seibiant yn ystod mis Awst, dechreuwyd gweithgareddau eto, gan gadw noson ym Mhenmachno i aelodau'r Gymdeithas Ieol. Nosweithiau eto yn y Victoria yn Hydref a Thachwedd ac yna ar ddechrau Rhagfyr, cafwyd dwy noson Nadoligaidd i'r ymwelwyr oedd ar wyliau 'Turkey and Tinsel' yn y gwcoety. I ddiwedd gweithgareddau am y flwyddyn, Rhostryfan oedd y man cyfarfod lle buom yn dathlu'r Nadolig yng nghwmni aelodau o Gymdeithas Llanvddol Rhosira.

Dewiswyd Ambiwllans Awyr Cymru fel ein elusen am eleni ac fel canlyniad i redeg raffl yng ngwcoety'r Fictoria pan yno yn diddanu, rydym yn falch o ddweud fod y swm o £350 wedi ei anfon i Bencadlys yr Ambiwllans Awyr.

Dymunaf aelodau Nadolig Llawn i bawb.

YSGOL BRYNREFAIL

Alldaith i Zambia a Botswana

Disgyblion lleol yn chwilio am gefnogaeth er mwyn cael alldaith eu bywydau

Camre Cymru yw'r corff gyntaf yng Nghymru sy'n cynnig rhaglenni datblygu alldeithiau dramor i bobl ifanc. Hyd yn hyn mae'r cwmni wedi rhoi profiadau bythgofiadwy i dros 200 o ddisgyblion ysgolion a cholegau ym Molivia, Borneo, Tanzania a Phatagonia.

Ym mis Gorffennaf, 2005 bydd criw bychan o 8 o bobl ifanc rhwng 16 ac 18 mlwydd oed o Ysgol Brynrefail a Choleg Menai yn mynd ar alldaith i Zambia a Botswana. Bydd y criw allan yno am fis ac yn cymryd rhan mewn llawer o weithgareddau cyffrous, cyrsiau iaith a phrosiectau a chymunedau ar amgylchedd. Bydd y cyfranogwyr a fydd ar yr alldaith yn datblygu sgiliau newydd, hunan-hyder, ymwybodaeth amgylcheddol, diwyllianol a chymdeithasol a pharch at eu hunain ac at eu gilydd.

Yn teithio gyda'r disgyblion fe fydd yr athrawes cyswllt Madam Sylvie Gartau (pennaeth Ieithoedd Fodern yn Ysgol Brynrefail), ac arweinydd proffesiynol o'r cwmni. Byddant yn treulio pob eiliad gyda'r disgyblion ac yn gwneud yr holl weithgareddau gyda hwy. Er hyn, mae'r holl drefniadau ymlaen llaw am eu mis yn Zambia a Botswana yn cael ei wneud gan y disgyblion yn unig - o drefnu'r gweithgareddau i ddarganfod safleoedd aros addas, fe fydd y cyfrifoldeb yma yn brofiad anhygoel.

Dyma ciriau Eifion Jones, prifathro Ysgol Brynrefail am y rhaglen,

'Rwy'n hyderus y buasai cymryd rhan yn rhaglen Camre Cymru yn darparu addysg effeithiol, twf a llwyddiant. Bydd ein disgyblion yn dychwelyd o'r


alldaith â llygaid agored, wedi cyflawni pethau nad oeddent yn credu oedd yn bosibl.'

Mae cost yr alldaith i bob unigolyn yn dod i £3,000 felly rhyngddynt yn £24,000, a bydd rhaid iddynt godi'r holl arian erbyn mis Mai 2005. Mae eu syniadau codi arian yn cynnwys ocsiwn, sel cist car, gwneud calendr a theithiau cerdded noddedig. Er eu holl syniadau codi arian mae'n allweddol eu bod yn cael gafael ar noddwyr ac nid ydynt wedi gallu cael hynny eto. Buasai'r criw yn hynod ddiolchgar o unrhyw gymorth ariannol gan gwmnïau lleol ac unigolion. Os oes gennych ddi-ddordeb mewn nodd i'r criw cysylltwch a Grŵp Camre Cymru, Ysgol Brynrefail, Llanrug, LL55 4AD os gwelwch yn dda.

Nid alldeithiau dramor yn unig y mae Camre Cymru yn ddarparu, maent hefyd yn cynnig rhaglenni awyr-agored wedi eu cynllunio yn benodol i ddal dychymyg y cwsmer. Cyfuniad o weithgareddau awyr-agored a chysiau datblygiad personol ydynt ac mae'r holl raglenni wedi eu hanelu at ddatblygu sgiliau bywyd fel arweinyddiaeth, gwaith tîm, cyfathrebu a datrys problemau. Mae'r cyrsiau wedi eu cynllunio i allu dod i'r safle (e.e yr ysgol) neu o'r safle, yng ngrombil Parc Cenedlaethol Eryri, neu mewn safleoedd syfrdannol brydferth eraill dros Brydain gyfan.

Mae'r cwmni yma wedi cryfhau'n aruthrol ers ei agor ym Medi 2002 ac mae ei agwedd brofiadol a chyflawnus yn cadarnhau fod datblygiadau pellach ar y gorwel. I gael cyfle i gymryd rhan mewn alldaith dramor neu rai o'r rhaglenni eraill cysylltwch â Rhys Davies (Cyfarwyddwr y rhaglen alldeithiol) ar (01248) 605030 neu ymweld â'i gwefan www.outlookexpeditions.com.

Clwb Llyncu Llyfrau



Gethin, Ben ac Iwan o Flwyddyn 7 yn mwynhau!

Mewn cydwethrediad â Gwasanaeth Llyfrgell Gwynedd, yn ddiweddar lansiwyd y clwb cyffrous hwn gyda bwffe a drefnwyd gan ddisgyblion Cwrs Arlywy'r ysgol. Ei swriad yw rhoi cyfle i ddisgyblion, boed yn ddarllenwyr brwd neu beidio, i

fwynhau llyfrau a darllen gyda'i gilydd. Cynhelir y sesiynau brynhawniau Mercher ar ôl yr ysgol, gyda llu o weithgareddau amrywiol i apelio at ddant pawb. Estynnir croeso cynnes i unrhyw ddisgybl i ymuno â'r clwb - dewch draw i'r llyfrgell i ymaelodi!!!

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth



Y DYN CIG
BRYNAFON
LLANRUG

675190 • 673188

Gwasanaeth lleol ar gyfer

Partïon • Priodasau

Pen-blwydd • Bedydd • Dawns • Gwyliau
RHOSTIO MOCHYN ar gyfer pob achlysur

Cig o ffermydd lleol, Partïon rhwng 40 a 400!

DEWCS, MAE O'N FLASUS!

Cysylltwch â: John Hughes ar un o'r rhifau uchod

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

PAT AC EDGAR

SWYDDFA'R POST

LLANRUG

Ffôn: (01286) 672422

SWYDDFA'R
POST



LINDA MORRIS

GWASANAETH TRIN GWALLT

YN EICH CARTREF

1 BRYN FEDWEN, Ffordd yr Orsaf

LLANRUG. Ffôn: 678857

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Pryd i Bawb

*Buffe blasus o safon
at bob achlysur*

Priodas • Parti

Te Angladdau • Cinio Busnes

*Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i Bawb*

CERID MACKINNON

Plas Tiriou, Llanrug, Caernarfon, Gwynedd LL55 4P4

(01286) 673190



Cefnogwch ein Hysbysebwy



**Cyfarchion
Nadolig
LLANRUG**

GAREJ  **HAFOD**
PEUGEOT
LLANRUG Ffôn: 673372

*Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda*

oddi wrth

John Trevor

a'i deulu,

a'r holl staff



Deinamig; soffistigedig; hardd; diogel; cystadleuol

– dyma rai'n unig o rinweddau model newydd y

PEUGEOT 407 Hwn fydd gyrru gorau'ch bywyd

Galwch i brofi drosoch eich hun!

BOCSYS ANRHEGION



Cario bocsys o Ysgol Dolbadarn rai blynyddoedd yn ôl.



Y bocsys o Awstralia.

Ers rhai blynyddoedd bellach, mae capeli, eglwysi, ysgolion a mudiadau eraill lleol wedi bod yn trefnu casglu bocsys yn llawn anrhegion i'w hanfon at blant mewn angen ledled y byd. Mae'r cyfan dan nawdd yr elusen, Ymgyrch Plentyn y Nadolig (*Operation Christmas Child*). Sefydlwyd yr elusen hon gan ddau gyfaill o ardal Wrecsam pan gawsant y syniad o anfon anrhegion i blant a welsent ar y pryd mewn amgylchiadau truenus yn Romania. Arwyddocad enw'r elusen wrth gwrs oedd bod y cyfan yn deillio o argyhoeddiad Cristnogol y ddau, eu bod yn gweithredu yn enw Iesu Grist, Gwir Blentyn y Nadolig. Buan y cydiodd y syniad o lenwi bocsgidiau ag anrhegion er mwyn i'r bocsgid hwnnw gael ei roi yn anrheg i blentyn dramor.

Yn y blynyddoedd cynnar roedd yr holl focsys yn cael eu danfon i Wrecsam i gychwyn oddi yno wedyn i Romania a'r gwledydd eraill y dechreuwyd eu hanfon iddynt. Ond wrth i'r elusen dyfu, ac i fwy a mwy o focsys gael eu paratoi, agorwyd sawl warws arall yng ngwledydd Prydain er mwyn sicrhau bod y cyfan yn cael eu hanfon i'r plant erbyn y Nadolig bob blwyddyn.

Yn fwy diweddar daeth Ymgyrch Plentyn y Nadolig yn rhan o'r elusen fwy, Pwrs y Samariad (*Samaritan's Purse*), a thrwy hynny cydiodd y syniad o anfon y bocsgid o anrhegion mewn miloedd ar filoedd o bobl mewn gwledydd heblaw gwledydd Prydain. Ond er i'r elusen dyfu ac ehangu ei gornelion mae un o'i sylfaenydd, Dave Cook, yn dal yn flaenllaw yn y gwaith.

Caiff cannoedd o focsys eu hanfon o fro'r Eco bob blwyddyn, ac mae pawb sy'n ymwneud â'r gwaith yn ddiolchgar am y gefnogaeth hael flwyddyn ar ôl blwyddyn. I lawer iawn ohonoch mae paratoi'r bocsgidiau lawn cymaint o draddodiad Nadoligaidd ag yw gwneud y pwdin Dolig a gosod yr addurniadau. Mae'n rhyfeddod bob blwyddyn gweld y bocsgid yn cyrraedd, a hir y parhao'r arfer ardderchog o gofio am blant y mae eu Dolig yn dra gwahanol i Ddolg y rhan fwyaf o blant ein gwlad ni.

Gan fod yr Eco dros y blynyddoedd wedi rhoi cryn sylw i'r bocsgidiau a anfonwyd o'r ardal, bydd y rhan fwyaf o'r darllenwyr yn gyfarwydd â'r gwaith da hwn. Ond tybed faint ohonoch sy'n

cofio'r adeg pan anfonwyd bocsgid anrhegion i'r ardal hon o dramor? Eifion Roberts sy'n adrodd y stori honno i ni:

Pe byddai unrhyw un gofyn, "Pam dylem ni fod mor hael efo'r gwledydd tramor yma?" Rai misoedd yn ôl bu imi dderbyn llun sy'n dangos degau o blant yn dal bocsgid anrhegion.

Plant Ysgol Dolbadarn ydynt, yn derbyn bocsgid anrhegion a yrrwyd iddynt gan bobl Awstralia. Tynnwyd y llun tua 1948, ychydig wedi'r Ail Ryfel Byd. Roedd rations mewn bodolaeth a mwyafrif pobl y

wlad yn cael amser reit galed.

Oddi mewn i'r bocsgid yr oedd pethau prin fel siocled; ac ymysg y plant sy'n sefyll i dderbyn bocsgid mae nifer o oedolion presennol Llanberis, megis Selwyn Hughes, Alwena Thomas, Heulwen Lewis, Derek Williams, ayyb.'

Tybed oes gan rai ohonoch chi'r darllenwyr atgofion am dderbyn bocsgid o'r fath? Beth am rannu'ch stori efo ni?'



BRYNREFAIL

Mrs Lowri Prys Roberts-Williams, Godre'r Coed. Ffôn: 870580

SEFYDLIAD Y MERCHED

Bydd cyfarfod cyntaf y flwyddyn newydd yng nghanolfan Creffta Dylunio Eryri nos Iau, 20 Ionawr, pryd y disgwylir Dafydd Whiteside Thomas, Llanrug, i roi sgwrs. YR EGLWYS BRESBYTERAIDD. Oedfaon Ionawr 2005

- 2: Parch Emrys Thomas, Caernarfon am 10.00;
- 9: Parch Gwenda Richards, Caernarfon am 5.30;
- 16: Mr Glyn Owen, Llanwnda am 5.30;
- 23: Parch H. Gwynfa Roberts, Llanwnda am 5.30;
- 30: Parch Gwynfor Williams, Caernarfon am 5.30, Gweinyddir y Sacrament o Swper yr Arglwydd.

Cefnogwch ein Hysbysebwy

GWERSI PIANO A CHANU

Sharon V. Williams B.A.
Pentir (01248) 353746

Nadolig Llawn a
'Blwyddyn Newydd Dda



NEGES BWYSIG GAN SANTA. PLIS, PLIS, PLIS a fuasai'r sawl a gatodd fenthylg fy siwt gan Pat Gae Goch y flwyddyn ddiwethaf yn ei dychwelyd ar frys, gan fy med yn eor ac eisiau mynd â'r anrhegion i'r plantos noson cyn y Nadolig. Diolch yn fawr iawn. SANTA.



Plant Ysgol Llanrug efo'r bocsgid - eto flwyddyn neu ddwy yn ôl.

Nadolig Llawen a
Blwyddyn
Newydd dda oddi
wrth bawb yng



NGHARTREF



Ffordd yr Orsaf
LLANRUG

Ffôn: C'fon 674652

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda i bawb
oddi wrth

CERIS JONES

Teglan, Stâd Talybont

LLANRUG

677362

neu symudol

07979

620996



- Trwsio ceir a faniau
- Gwaith MOT
- Mecanic profiadol iawn
- Prisiau cystadleuol

CYFARCHION Y TYMOR ODDI WRTH
DENNIS ROBERTS

(Glyn Roberts a'i Fab)

DYNION GLO LLANRUG

Ffôn: 675043

Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i'n cwsmeriaid i gyd oddi wrth

DYLAN A MIKE

SIOP CHIPS TEGFAN

Y Sgwâr

LLANRUG 678282

Nadolig Llawen a Blwyddyn
Newydd Dda oddi wrth

**BRYN AFON
ENGINEERING LTD**
PEIRIANWYR MECANYDDOL




Arbenigwyr mewn pob
math o waith metel

GWAITH BRYN AFON
LLANRUG, Ffôn: 675523

Cefnogwch ein Hysbysebwy

Simneau glân am bris rhesymol gan



G. LLOYD

4 PLAS TIRION TERRACE
LLANRUG

Cyfarchion y tymor i chwi oll

Defnyddir
peiriant sugno i lanhau Ffôn: Caernarfon 674781

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda
i ddarllenwyr Yr Eco oddi wrth Bawb
ym Mhare Cartrefi Gwyliau

HOLIDAY HOME PARK
Brynteg
LLANRUG

- lle gwiredwyd breuddwyd

Mae ein llwyddiant wedi parhau eleni eto
gydag ennill Gwobr

Cymru yn ei Blodau / Wales in Bloom



GRŴP
**TALACRE
BEACH**

Dymunir diolch i
drigolion ardal Eco'r
Wyddfa am eu
cefnogaeth yn ystod
datblygiad y parc.
Buddsoddodd y
perchnogion, fwy na £3.5
miliwn ym Mrynteg.
Yn y broses, crewyd
rhagor na 40 o swyddi.
Hefyd cefnogwyd a
noddwyd nifer o
achosion da
lleol.

Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

Dave a staff y

**GLYNTWROG
LLANRUG**

**Bwyd ardderchog
am brisiau rhesymol**

Bydd croeso
cynnes yma
dros yr ŵyl



Nadolig Llawen a
Blwyddyn Newydd Dda
oddi wrth

WENDY,

GERAINT

A STAFF

TAFARN

PENBONT

LLANRUG


Lle braf a chwmni difyr
dros wyliau'r Nadolig a'r
Flwyddyn Newydd

**DYMUNA
GWYNFA A MARGARET
PRITCHARD**

GWERTHWYR LLEFRITH

GEFN LLWYD
LLANRUG
Ffôn 872263

NADOLIG LLAWEN
A
BLWYDDYN NEWYDD DDA
I GHWI OLL



TALWRN Y DYFFRYNNOEDD

Cafwyd ymateb da i'r arbrawf o gynnal talwrn yn Y Bedol, Bethel, i chwyddo coffrau yr apêl leol tuag at Eisteddfod Eryri 2005. Llwyddwyd i godi £205 ar y noson. Y timau oedd Dyffrynnoedd Peris, Ogwen a Nantlle. Y meuryn gwadd oedd Cynan Jones, a diolch iddo am ei gyfraniad hwyliog wrth lywio'r noson. Aelodau'r timau oedd:
Dyffryn Peris: Dafydd Whiteside, Richard Llwyd a John Roberts
Dyffryn Ogwen: Ieuan Wyn, Gwynfor ap Ifor a Iolo Williams.
Dyffryn Nantlle: Karen Owen, Ifan Glyn a Menna Medi.

Cafwyd apêl gan nifer o'r gynulleidfa i weld copi o'r cynnyrch, a dyna yw pwrpas yr adroddiad yma. Fe osodir y cynnyrch yn y drefn uchod - Peris, Ogwen, Nantlle.

Englyn: TOMEN

Y trist, yn eich dagrau trowch at
Allah.

Yn Rama offrymwch
Weddi uwch bedd o heddwch.
Yn y llaid mae mwy na llwch.
(Richard Llwyd)

Yma dan bwysau'r domen - mae
hafau'r

Anghofwyd eu hawen;
Ac oes oedd letach ei gwên
A phurach ei hofferen.
(Gwynfor ap Ifor)

Nid unwaith y daeth dynion - i wagio
Rhyw wagen o noddion;

Mae ôl eu camau hoelion
Yn rhy las, yn holli'r lôn.
(Karen Owen)

Limrig yn ymwneud â Gamblo

Tori Blêr sydd am agor casino
I werin y wlad gael eu blingo;
Ei ddull o wneud hynny:
Pontoon a gin rummy,
A poker: i fyny 'i din o.
(Dafydd Whiteside)

Ryw dro roedd na ramblwr di landio
Ar dir Dafydd Morris i ramblio;

Gollyngodd ei gi
I redeg yn ffri,
Nawr dyna i chi be 'di gamblo.
(Gwynfor ap Ifor)

'Awydd Bet?' holodd Johnny wrth Jim
'Dwy, iawn,' meddai hwnnw, 'i'r dim
lle'r awn ni am flutter?'

Medd Johnny, 'Ti'n nutter -
Y wraig o'n i'n feddwl - am ddim!'
(Menna Medi)

Fennill Beddargraffi GWERTHWR CEIR

Hastiwch, codwn lwnc destun - i wron
A garodd ei gyd-ddyn.

Yma, rhaid canu emyn
I geir rhad, 'rhen Gari Wyn.
(Gari Wyn)

'Deugain oed. Ai dyna oedd o?
Pan ar ganol canmol moto.'

'Chlywodd o mo swm y cnocio?
Rhaid 'i fod o wedi'i gloccio.'
(Iolo Williams)

Yma'r huna yr hen Gari
Aeth dan 'lwynion rhyw Ferrari.

Cwsq yn hir mewn heddi, 'rhen fwyhgen,
Nawr bydd siawns cael ambell fargen.
(Ifan Glyn)

Englyn yn cynnwys y geiriau 'ERYRI' a 'GWAWR' neu 'WAWR'

Eryri yw'n tir o hiraeth - heddiw
Heb nodded perchnogaeth.
Estyn llaw mae twristiaeth
I weled gwawr dros wlad gaeth.
(Richard Llwyd)

Ffoi o hyd 'r'ôl addo'n ffôl -
a wna'r wawr

Yn Eryri'n oesol;
Addo mae gwawr, dragwyddol,
Y nos sy'n aros ar ôl.
(Gwynfor ap Ifor)

Hogan fawr yw Gwawr McGee -
mae hi'n byw

mewn bocs yn Eryri,
hi a'i chwaer a'i chath a'i chi
yn hapus, fel pob hipi.
(Dewi Owain Jones)

Cerdd dau bennill : CYSGOD

Yr oedd yn fawr,
Yr oedd yn gawr
O ddyn, ym mhob rhyw ddathlu;
Yn llawn pob lle
Ym mhob hwrê,
A'i egni'n ein cynhesu.

Ond cysgod mwg
'R hen hoelion drwg
Fu rhwng y cols yn llechu.
Ni wna'r un gân
Ail gynnu'r tân
Sy'n araf, araf bylu
(John Roberts)

A'r haul ym mrig yr wybren
Yn hafau llosg fy ngwaed,
Ni faliwn ddim amdano
Yn llercian wrth fy nhraed.

Yng ngolau gwan fy machlud
O'm trocon ofer, ffôl,
Mor glir yw'r cysgod gwargam
Yn bladur hir o'm hól.
(Ieuan Wyn)

Nid wyf yn ofni'i chysgod
Nac un neb arall chwaith,
ac nid wyf ofn ysbrydion
nac agor ambell graith.

Yr hyn rwy'n ofni fwyaf
Yw dioddef cystudd blin
A gweld rhyw gysgod bychan
Yn ffurfio ar y sgrin.
(Menna Medi)

Gân: CODI ARIAN I'R 'STEDDFOD

Clywed wnes fod Dafydd Wigley
Ar grwsad dros fryn a dôl,
Wrthi'n gwerthu'r gronfa leol,
Gan obeithio'i chael hi'n ôl.

Clywed wnes fod Moi, ei bartnar,
Wedi mynd mewn limosin
I Landernau yn Llydaw
A dod 'nol yn llawn o win.

Clywed wnes fod Robin Llŷn
Wrthi'n codi pres ei hun
Am nad ydi ogotwro Nefyn
Wedi dal yr un sgadennyn.

Diolch byth am dre Caernarfon,
Gofis hofu'i niwco a'i mago,
Pôbl dlawd sy'n methu fforddio'n
Rhoi pris peint neu bacad ffago.

Dowch a gwagiwch eich pocedi,
Rhowch eich punnoedd yma'n hael,
Fel bod Steddfod Fawr Eryri
Yn cael cychwyn yn ddi-ffael.
(Iolo Williams)

I godi mags i stefod, ia
We bac yn sefnti nain;
Mi neuso ni uffar o effort, ia
Beg, boro - a rafflo nain.

Ma nain wedi marw rwan, ia
O sad. Ond mi neuso hi will
A gadael un hip o sbondonics, ia
I brawd fi! Culture Bill.

Dim mond am bo fo medru darchan, ia
A fi ddim gwel na hen lob;
Ond nath fodan o, chwaer yn cyfarth, ia
I gwario nw'i gyd ar boob job!

Hitiwch befo, gewch chi menthyg
Bocs Matsus, ia
Yr un newydd ar Doc i lawr dre.
Gewch chi stefod yn fanno drwy'r
flwyddyn, ia
Cos do's neb isio iwsio'r lle.

A nos Wenar, ar neit owt yn Con club, ia
Hen fodan a fi a cyw,
Ro ni lot o lws chenj yn bocs casglu, ia
I gadw Welsh langwey yn fyw.
(Dafydd Whiteside)

Cafwyd cystadleuaeth agored i
gwblhau limrig. Daeth sawl cynnig
o'r llawr ond dyfarnwyd y wobr i
Dafydd Whiteside.

Un dydd pan godais yn fora
Dychrynais wrth weld gwraig drws
nesa'

Yn noethlymun, lyfli
Mewn gwllith yn ymolchi
A fory mi godaf yn gynt!

Wedi'r holl chwysu a chwerthin y
marciau terfynol oedd Ogwen 65,
Peris 63 a Nantlle 63. Diolch i bawb
a gyfrannodd a hefyd i Kevin, Y
Bedol am y lluniaeth ysgafn.



Llun top: Tim Dyffryn Nantlle.

Llun canol: Tim Dyffryn Peris.

Llun gwaelod: Tim Dyffryn Ogwen.



Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda
i bawb yn Llanberis a'r cylch oddi wrth



E. W. Pritchard
62 Stryd Fawr
Llanberis

Ffôn: 870202

TREFNWYR ANGLADDAU
GEIR AR GYFER PRIODASAU

DYNION Y FFORDD

... ydych chi'n adnabod rhain?



Derbyniwyd y llun uchod gan William Davies, Gors Bach. Ef yw'r crwt bach 'distaw, diniwed' ym mreichiau Yvonne Lovell. Credir i'r darlun gael ei dynnu tua 1960. Criw o weithwyr ffordd y cyngor Sir sydd yma yn lledu Pont Barics, Nant Peris. Mae Wil yn meddwl

fod y rhan fwyaf o'r gweithwyr yn dod o ardal Llanberis a Llanrug. Mae'n siŵr y gall un o'n darllenwyr roddi enwau i'r gwynebau.

Pwy oedd y 'giangar' tybed? Mor wahanol heddiw yn oes y JCB a'r dillad pwrpasol.

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda
i chi oll oddi wrth bawb yng

NGORSAF BETROL



DEINIOLEN. Ffôn: Llanberis 871521

Ar agor 7 a.m. - 9 p.m. bob diwrnod
Petrol ● Disel ● Nwy Calor ● Glo ● Cylchgronnau
Papurau Newydd ● Cardiau Penblwydd
Wyau ● Nwyddau Groser ● Melysion
Diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn

TICEDI LOTERI AR WERTH

STEPHEN JONES

† Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 870 870

(01286) 872 491

(07770) 265 976

Cwmni Annibynnol Lleol Profiadol
Nadolig Llawn a
Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawn a Blwyddyn
Newydd Dda i bawb

- ★ Priodasau ★ Dathliadau
- ★ Achlysuron Arbennig
- ★ Cynadleddau ★ Pwyllgorau
- ★ Bwydlen Bar ★ Cinio Dydd Sul

ROYAL VICTORIA HOTEL
LLANBERIS



(Quality Hotel Snowdonia)

wrth ddech yr Wyddfa

Ffôn: Llanberis 870253

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda



Gwasanaeth Trylwyr
gan y bobl **BROFFESIYNOL**
Gwasanaeth Personol Cyfoillgar i **CHWI**
Y Gwasanaeth Technegol Gorau
i'ch **GAR**. Cystal â
Gwasanaeth Prif Ddeliwr
Felly, pa gar bynnag ydych
CHWI yn ei yrru,
o Audi i Zastava



GEMINI
SERVICE CENTRE

Gar neu Fan
Petrol neu Disel
Gorb. neu Chwistrellad

Bydd ein Gwasanaeth
ni yn arbed eich
ac yn ymestyn oes eich car

AWW

YSTAD CIBYN

CAERNARFON (01286) 673559



Darganfyddais y pwt hwn ymhlith hen bapurau o eiddo fy nhaid - Elfed Thomas, yn ddiweddar. O ystyried y ffaith inni atgyfodi'r ffair y llynedd mae ei agwedd besimistaidd yn y paragraffau cyntaf yn eithaf eironig!

Yr hen bethau a aethant heibio - ond mi wnaethpwyd popeth o'r newydd.' Dyna hanes Ffair Nant, beth bynnag! yn anffortunos, mae hyn yn wir am lawer o'n hen draddodiadau a'n harferion. Mae'n rhaid inni gydnabod bellach nad oes atgyfodiad i'r hen ffair - fel llawer i ffair arall. Waeth heb a beio neb na dim - yr hen bethau a aethant heibio!

Does ddim os nad oes colled anadferadwy ar ei hôl. Mae'r oes bresennol a'r oesau sydd i ddod wedi colli eu pen blwydd blynyddol. Ie'n wir! Yr 18fed o Fedi oedd pen blwydd a phen blwyddyn pobl y Nant.

Fy hunan - ar ôl y flwyddyn 1915 - fe gollid llawer o'm blas a'm diddordeb at y ffair. Pam dybed? Yn Gynnar yn 1916, derbyniodd fy mam y newydd trist fod fy nhad wedi marw a'i gladdu yn Alexandria, yng ngwlad yr Aifft, ar y 21ain o Fedi 1915. Finau wedi cael fy mhen blwydd pentrefol ar y 18fed o Fedi a'm pen blwydd naturiol ar y 24 ain o Fedi. Ar hyd y blynyddoedd i ddilyn, gwrthodai'r 21ain o Fedi, rhwng pen blwydd pobl Nant a'm pen blwydd i.

Beth bynnag am hynny, af a chwi'n ôl at fy atgofion cyntaf o'r ffair. Ond y ffair wen y noson cyn diwrnod y ffair ei hunan oedd yr atyniad mwyaf, ond y disgwyl, yr edrych ymlaen a'r paratoi. Yn aml iawn rhyw 'anti climax' chwedl y Sais, oedd y diwrnod mawr. 'Disgwyl pethau gwych i ddyfod / Croes i hynny maent yn dod.' Y bwgan mwyaf oedd y tywydd. Digalon o beth oedd crwydro'r maes a'r heol ambell i flwyddyn, a'r glaw yn gwlychu mwy arnoch na'r 'lady teasers'.

Well! beth am yr edrych ymlaen a'r paratoi? Prin iawn oedd y geiniog y blynyddoedd hynny. Sut mae'n bosibl i unrhyw un ei fwynhau ei hunan heb bres yn ei boced? Felly, byddai hel a chasglu dygn am wythnosau cyn yr uchafbwynt. Nagesau i hwn a'r llall, helpu mcwn cac gwair, helpu i dipio defaid a'u cneifio, bod yn gi bach i sicrhwyd y fro tra byddent yn hel a didol diadell! Wedi'r holl ymdrech, teimlech yn ddigon hapus ar rwy hanner voron i'w wario.

Diwrnod cyn y ffair, ar fore godiad, allan i'r brif ffair a sylu fel hebog at bro bwlich Safn Ci. Yna ddwy filltir i ffwrdd cdrychid ymlaen at y cipolwg cyntaf o'r syrcau. Am flwyddoedd y syrcau oedd

FFAIR NANT (18 MEDI)

canolbwynt ac uchafbwynt y ffair, nid yn unig inni y plant, ond i bob gwadn esgid.

Yna y drafferth a'r ffwdan o dynnu a llywio carafannau i Cae Wal, yn union o flaen y tafarndy, Ty'n Llan. Erbyn gyda'r nos - y ffair wen, byddai'r merry go round yn barod i'w gwaith; y stondinau saethu; y coconuts a chant a mil o atyniadau eraill yn dechrau gwahodd y bobl i wario.

Bore'r Ffair, i ychwanegu at y miri yng Nghae Wal, am ganllath o Ty'n Lôn i Bont Barics, rhes o stondinau 'Indian Rock' ar un ochr i'r brif ffordd; ar yr ochr arall dwy neu dair stondin yn gwerthu llestri, stondin ffrwythau, ac, wrth gwrs, stondin 'lady-teasers.' Pibell neu diwb oedd yr olaf yn llawn o ddŵr. Ond ei wasgu, chwistrellai dŵr allan i wyneb neu i lawr gwddf y diniwed!

Ar ddiwrnod gwaith, dihangai llafnau o'r chwarel awr ginio, eu bryd ar eu mwynhau eu hunain yn bennaf. Un tric a chwaraeent yn aml ar berchnogion stondinau oedd clymu un neu ddwy wrth gerbyd oedd yn araf ymwithio drwy ddwsinau, os nad cannoedd o bobl. Tynhau'r cortyn ac yn araf llusgai'r stondinau'n swllyd ar ôl y cerbyd, yr Indian Rock yn ei sgrialu i bob cyfeiriad a'r perchnogion yn gweiddi mwrddwr!

Yn fyr, eich byd a'ch bywyd ar ddiwrnod ffair oedd crwydro'r cae syrcau, weithiau dros eich esgidiau mewn llaid; allan i'r briffordd ac ymwithio eich ffordd drwy'r dyrfa i lawr neu i fyny; eich coler a'ch crys yn wlyb domen, a'ch poced wedi gwagio cyn amser te.

Gyda'r nos, a dyma'r ysblander i mi fel dipyn o artist; y lampau yn chwythu fel nadroedd naptha ar dân a'r fflamau yn codi a gostwng. Y gloddestwyr yn mynd a dod i'r tafarndy, rhai'n feddw braf, rhai yn feddw swllyd, a'r ychydig yn feddw afreolus. Llifa'r cwrw allan i'r stryd, ac nid peth anghyffredin oedd gweld ambell i gi sychedig wedi troi'r drol!

Mi soniais am ddefaid! Wedi'r cwbl, y hwy oedd i fod y brif atyniad. Noson y ffair wen paratowyd corlannau ar eu cyfer, rhai corlannau yng nghwr Cae Wal, oes penodlys y syrcau - eraill yn yr heol, sef y gofod o flaen porth yr eglwys, y pryd hynny, angorid rhai o'r corlannau wrth rheiliau'r fynwent. Beth ddigwyddai yno bore'r ffair - ni wni! Dwydd genyf ddim diddordeb mewn na dafad na chorlan!


Âi'r rhialtwch a'r hwyl ymlaen tan hanner nos. Fesul un ac un, ymadawai'r dorf derfysglyd. Yn y diwedd, doedd ond ambell i feddw lleol yn ymbalfalu am seintwar ar yr heol Darfu miwsig aflafar y syrcau! Darfu'r cneus a'r cwffio. Ymadawodd y stondinau! Doedd yn aros ond mudandod y syrcau, heb ddiadell heb ei gwerthu - ac ysbwriel, y sothach a'r atgofion ar ôl y ffair.

ELFED THOMAS

Os oes gan rhai o ddarlennwyr yr Eco straeon neu luniau o hen ffair Nant buaswn wrth fy modd yn clywed gennyh. Bydd yr holl wybodaeth yn cael ei osod ar wefan y pentref - sydd yn cael ei adeiladu ar hyn o bryd.

LLINOS H JONES

Mae'n rhaid i mi siarad hefo rhywun



Y SAMARIAID
Bangor
(01248) 354646

Pa un o'r rhain sydd bwysicaf?

YSWIRIO EICH TŶ
(i arbed colled i chi);

YSWIRIO EICH CAR
(i arbed colled i chi); neu

YSWIRIO EICH BYWYD
(i arbed colled i'ch teulu)

Cysylltwch â'r isod i weld mor rhad yw cost yswiriant gyda **CDH**
Andre (Bethel/Llanberis)
Bryn (Môn)
Euryn (Caernarfon a'r cylch)
John Eifion (Penisarwaun)

CDH
Ymgynghorwyr Ariannol
Annibynnol Lleol (sefydlwyd 1974)
Ffôn: (01248) 355055
Cyfarchion y Tymor i bawb

IEUAN WILLIAMS

Glanffrwd DEINIOLEN

Llanberis 870484

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb



Un funud fach

TRI GŴR DOETH?

Fe ddown nhw'n ôl nos yfory. 'We wish you a Merry Christmas', wir! Mor gwrtais ag unrhyw siopwr di-Gymraeg yn ebychu 'English' os meiddiaf ddweud 'Bore da' wrtho, mynnais innau bod y tri 'charolwr' yn canu rhywbeth yn Gymraeg. Ar ganol eu datganiad digon swynol o 'vbDymunwn Nadolig Llawen' mentrais awgrymu y byddai'n well gen i gael carol ganddynt. Ond doedd pethau felly ddim yn rhan o'u repertorie.

'Da chi'n gwybod "Dawel Nos", hogia? Beth am "I orwedd mewn preseb"? "O deuoch ffyddloniaid"? Roedd un ohonyn nhw yn cofio pwt o bennill o ddyddiau'r ysgol gynradd, ond mwy o emyn na charol oedd hwnnw hyd y gallwn ddweud.

Trawyd bargaen, y byddai'r tri yn chwilio am eiriau addas ac yn dod 'nôl nos yfory. Gan nad oedd yr un ohonynt yn gwbl sicr beth yn union yw 'carol' fe gytunon ni y byddai pennill neu ddau yn cynnwys y geiriau 'Bethlehem' a 'phreseb' yn weddol agos ati! A chafwyd cyfaddawd nad oes raid iddynt ddyngu'r geiriau ond y cânt ddefnyddio copi wrth dychwelyd i'n swyno. Ac ymaith â'r tri yn siriol ddigon i gyflawni eu rhan hwy o'r cytundeb; yn benderfynol o fod yn garolwyr go iawn ac yn llawn gobaith y byddem ni yn ein tro yn cadw'n rhan ninnau o'r fargaen.

Mae'r Wyl yn mynd yn fwy a mwy seciwlar wrth i'r elfennau Cristnogol gael eu tynnu ohoni; y preseb wedi ei wahardd gan fwy nag un cyngor am ei fod yn dramgwydd i grefyddau eraill; calendrau adfent ar bob thema ond stori'r Geni; jingles yn lle carolau. Ond diolch am bob arwydd bod y Crist yng nghanol yr Wyl o hyd: gwasanaethau arbennig yr ysgolion a'r eglwys; geiriau a lluniau'r cardiau Nadolig; haclioni'r gefnogaeth i focsys esgidiau Plentyn y Nadolig a sawl elusen arall; a sain hyfryd y carolau. Rwy'n obeithiol y bydd repertorie ein tri gŵr doeth ninnau'n nes ati nos yfory.

Ond er pwysiced cael Crist yng nghanol ein Nadolig mae'n bwysicach ei gael yng nghanol ein bywydau. Y Crist sy'n harddu'r cerdyn yw'r Crist all harddu bywydau'r rhai sy'n ymddiried ynddo. Y Crist sy'n llenwi'r carolau yw'r Crist all lenwi calonau'r rhai sy'n ei garu. Y Crist sy'n gorwedd mewn preseb yw'r Crist all gynnal y rhai sy'n gorffwys arno.

V Crist sy'n cyfoethogi'r Nadolig yw'r Crist sy'n cyfoethogi'n holl fywyd. Llawenydd y nefocdd a bendith y Crist fo arnoch i gyd dros yr Wyl a thrwy'r flwyddyn newydd.

JOHN PRITCHARD

Briwsion Byd Natur

Datfydd Guto

CYM'RYD ARNO!

Llynadd, bu imi daro ar gyw *bwncath*, a oedd yn llechu wrth fôn clawdd ar ochr y lôn. Cyn gynted ag y sylwedolodd y *cyw bwncath* fy mod yno'n plygu drosto, dyma fo'n cymryd arno ei fod - o'n farw gelain! Gwyddwn inna' fel arall, gan fod ei lyg'id yn adrodd cyfrola'. Bob hyn ac hyn byddai ei lyg'id yn symud. Daliai ati, er ffugio ei fod yn farw, i anadlu. Roedd hefyd yn fy ngwylio! Dotais yn lân ato. *Cyw bwncath*, hefo cryn dipyn o wynder yn perthyn iddo ydoedd hwn, hefo rhyw gymaint o strimynnau lliwia' melyn-ddu; un o dri cyw, (ac hwyrach y caf amsar cyn diwadd y flwyddyn gyfredol i sôn rhywfaint yn fwy-fwy wrthyfych am hyn i gyd!). Gofalu amdano'i hunan roedd o. Ceisio amddiffyn ei hunan rhag perygl. Er mor ifanc yr ydoedd gwyddai o'r gora' sut i osgoi perygl; y cam cynta' am wn i cyn troi'n oedolyn, a dechrau magu teulu.

Wedi gofalu am ddiogelwch y *cyw bwncath*, dychwelais tuag adra, gan fynd ati i chwilio am hanesyn rhyfeddol, o eiddo Margaret Patterson, a gynhwyswyd yng nghylchgrawn *Nature in Wales* (13/2), Hydref, y flwyddyn 1972, t.t.135-136. Cafodd Marged ar ddallt ym mis Hydref y flwyddyn 1971 bod *bwncath* diymadfarth ym Mhriddell, a oedd yn gorwadd ar leindir glaswelltog ar ochr y briffordd o Aberteifi i Ddinbych-y-pysgod. Pan aeth Marged at yr aderyn roedd yn llipa, hefo'i adenydd fymryn ar agor, a gorweddai ar un ochr. Aeth hita' a'r aderyn adra, ble y'i gosodwyd

mewn gwely wedi'i greu o sachau. Bu iddo atgyfnerthu. Roedd yn bwyta cig amrwd, a gadawyd iddo bowleniad o ddŵr glân croyw. Pan agorodd Marged ddrws y sied drannoeth, hedfannodd y *bwncath*, gan godi'n uwch ar ei ddwy adain, hyd nes taro'n erbyn mur. Llithrodd i'r llawr. Do, mi gymerodd arno ei fod o'n farw! Aeth yn llipa i gyd! O'i archwilio'n ofalus canfyddwyd nad oedd wedi'i anafu. Penderfynodd Marged ail-ddychwelyd yr aderyn i'w gynefin, ond wrth fynd i'w nôl i'r sied, canfu fod yr aderyn wedi disgyn drosodd fel un marw, a'i gorff yn llipa i gyd! Doedd dim byd o'i le ar meinaps. Cymryd arno ei fod o- wedi marw roedd o, gan ryw feddwl efallai y byddai'r byd o'i gwmpas yn gada' llonydd iddo! Clyfrwch? Darbodaeth? Ai ei reddf amddiffynnol oedd ar waith? Galwch chwi ef beth a fynnoch. Hyd yn oed wedi cyrraedd ei gynefin, a'i godi o'r gwely sachau yng nghefn y modur, a'i osod ar foncan laswelltog mewn stamp o gae, heb fod ymhell o'r goedwig, penderfynodd y *bwncath* lechu'n yr unfan, mor llonydd â delw gerfedig, ond bod ei lyg'id yn deud fel arall ynte! Y diwedd fu i Marged ei godi, a'i daflu i'r awyr ac yn ddiraffferth hedfannodd yr aderyn i ben coedan gan laniu'n berffaith ar frigyn! Yna ar amrantiad, cymerodd at ei adenydd, a theithio drwy'r awyr i ben coedan arall ac oddi yno ar draws y ddôl i'r goedwig gerllaw, cyn diflannu o'r golwg, nid fel aderyn marw, ond yn hytrach fel aderyn hynod fyw!

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda
i bawb oddi wrth

H.E. HUGHES

A'I FEIBION

Bwthyn Gadlys

LLANBERIS

Ffôn: 870444



- ★ Gwerthwr Glo
 - ★ Olew Gwres Canolog
- i'ch cadw'n gynnes ac yn glyd!

Fframio Gwasanaeth Fframio Lluniau

Arbenigwyr ar fframio gwaith edau a nodwydd

Nifer helaeth o luniau ar werth • Dewis eang yn cynnwys:

WILLIAM SELWYN • KEITH ANDREW

KEITH BOWEN • ROB PIERCY

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda

PARC PADARN, LLANBERIS (870922)

(Ar gau dydd Sul a dydd Llun yn ystod y gaeaf)

CLWB ERYRI

Nos Wener, 3 Rhagfyr 2004 cynhaliwyd cyfarfod olaf y flwyddyn, gydag Alwyn Evans, Caernarfon yn siarad ar destun diarth iawn i'r aelodau, sef hanes y Group Captain Lionel Brabazon Rees, genedigol o Blas Llanwnda, Caernarfon. Ganed y gŵr hynod hwn yn y flwyddyn 1884 gyda theulu ei fam yn hanu o'r Iwerddon, a theulu ei dad yn hanu o Gaerfyrddin. Ei daid a sefydlodd *Yr Herald Cymraeg*. Wedi addysg mewn ysgolion bonnedd yn Lloegr ymunodd Lionel â'r fyddin, gan ddringo i uchel swyddi yno. Cyn y Rhyfel Byd Cyntaf, derbyniodd hyfforddiant ar gyfer hedfan awyrennau, ac ymunodd â'r Royal Flying Corps ar ddechrau'r rhyfel. Ef oedd y peilot cyntaf, yn 1915, i saethu awyren Almaenig i'r llawr. Gorffennodd ei yrfa filwrol yn ystod yr Ail Ryfel Byd.

Roedd y teulu yn aelodau o'r clwb hwylio brenhinol ym Mhorth yr Aur, Caernarfon, ac yn y cyfnod rhwng y ddau ryfel hwyliodd Lionel i'r Caribi, a

symudodd i fyw i'r Bahamas. Priododd â Sylvia, merch tywyll ei chroen, a ganwyd tri o blant iddynt. Bu farw Y Group Captain Lionel Brabazon Rees yn 1955 a chladdwyd ef ym Mynwent Nassau yn y Bahamas.

Llywyddwyd y noson gan Wyre Thomas, a roddodd grynodedb o gefndir amrywiol siaradwr y noson. Yn ei gerdd 'Ucheldir' cafwyd digrifad byw iawn o fywyd yn ardal Trawsfynydd a'r Frongoch gan y Bardd John Norman Davies.

Ar ddechrau'r cyfarfod cafodd y Llywydd, Ralph Jones, y fraint o estyn croeso i aelod newydd i'r Clwb, sef Y Parch Deiniol Morgan, Llanberis. Treuliyd peth amser yn gwneud trefniadau ar gyfer cyhoeddi'r llyfryn i ddathlu hanner can-mlwyddiant y Clwb yn ystod y flwyddyn 2005, a fydd yn cael ei baratoi gan Rol Williams.

Diolchwyd i Alwyn Evans am sgwrs ar destun diddorol ac anghyffredin gan Iolo Llywelyn. Cyhoeddodd y Llywydd bod y cyfarfod nesaf i'w gynnal ar nos Wener, Ionawr 7, 2005. Y siaradwr fydd Dei Tomos, gyda Geraint George yn llywyddu.



I drin a thrwsio
pob math o
beiriannau gwnïo
**MENAI SEWING
MACHINE CENTRE**
21 Stryd Fawr
PORTHAETHWY

Ffôn: (01248) 714043

neu Caernarfon

Ffôn: (01286) 674520

Nadolig Llawn a
Blwyddyn Newydd dda



**MANTELL
GWYNEDD**

Yn cefnogi grwpiau gwirfoddol a chymunedol
Supporting voluntary and community groups


Cysylltwch â Mantell Gwynedd am help:

- i gychwyn prosiect
- i redeg mudiad
- i geisio am grant
- i gael hyfforddiant
- i wirfoddoli

Ffoniwch: 01286 672626
neu 01341 422575

ymholiadau@mantellgwynedd.com
www.mantellgwynedd.com

Rhif Elusen 1068851 • Rhif Cwmni 3420271



Nadolig Llawn a
Blwyddyn Newydd dda i bawb

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda oddi wrth

Silver STAR GWYLIAU SEREN ARIAN

- PECYNNAU CWYLIAU YM MHRYDAIN, EWROP AC YMHELLACH.
- TEITHIAU I GYNGHERDDAU A THEATRAU.
- TREFNU PECYNNAU GWYLIAU I GRWPIAU A MUDIADAU AM BRISIAU RHESYMBOL.
- BŴSIAU MODERN A MOETHUS
- GWESTAI O SAFON
- CYMNI TEULUOL
- MANNAU CODI YN CYNWYS: LLANBERIS, CWM Y GLO A LLANRUG.

Am fwy o fanyllion am ein teithiau, ffoniwch
ein swyddfa ar y Maes yn Nghaernarfon ar 01286 672333

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

oddi wrth



Hywel Williams
Aelod Seneddol



Alun Fred Jones
Aelod Cynulliad

Etholaeth Caernarfon

CYMORTHFEYDD

Os oes gennych fater yr hoffech ei drafod gyda'r A.S. neu'r A.C. mewn cymhorthfa, ffoniwch **01286 672076**

i wneud apwyntiad

neu

ysgrifennwch atynt:

Swyddfa Etholaeth

8, Stryd y Castell, Caernarfon LL55 1SE

neu

e-bost: williamsgw@parliament.uk

DEINIOLEN

Mrs Margaret Cynfi Griffith, Cynfi. Ffôn: (870394)

YR YSGOL FEITHRIN.

Cynhaliwyd Noson Tân Gwyllt lwyddiannus iawn yn yr Ysgol Feithrin ar 3 Tachwedd eleni a hoffwn ddiolch i bawb a gefnogodd y noson yn ogystal â'r rhieni a oedd yn helpu ar y stondinau.

Daeth y plant (a'r staff!) i'r Ysgol Feithrin yn eu pyjamas ar Ddiwrnod Plant Mewn Angen a gynhaliwyd ar 19 Tachwedd eleni a chasglwyd arian tuag at yr elusen. Gweler y llun o'r plant yn eu dillad nos.

Cynhelir Parti Nadolig y plant eleni ar ddydd Mawrth, 14 Rhagfyr am 1.15pm. Ni fydd sesiwn Ysgol Feithrin ar y bore hwnnw. Bydd y plant sesiwn bore, prynhawn a Cylich Ti a Fi yn cael te parti i'w ddilyn hefo cyngerdd gan y plant, yna bydd Siôn Corn yn galw gydag anrhegion iddynt. Bydd cyfle i brynu raffl ymlaen llaw i ennill llun o wobrau amrywiol. Bydd yr Ysgol Feithrin yn cau am ŵyl y Nadolig ar ddydd Gwener, 17 Rhagfyr, ac yn ailagor ar ddydd Mercher, 5 Ionawr, 2005.

Hoffwn ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb a diolch yn fawr am eich cefnogaeth yn ystod y tymor

diwethaf.

DYMUNA Carol Ann Jones, 59 Pentre Helen, ddiolch o galon i bawb am yr holl anrhegion a chardiau a dderbyniodd ar enedigaeth ei merch, Angharad Elisabeth, ar 24 Tachwedd. Diolch yn fawr iawn.

MARW. Yn dawel yn Ysbyty Gwynedd, ar fore Sul, 28 Tachwedd bu farw Mrs Elizabeth Mary Williams, gynt o Tegfryn, 13 Ffordd Deiniol. Yn enedigol o Clwt y Bont, roedd hi'n weddw Mr David Williams. Bu'n byw am dros 60 mlynedd yn Ffordd Deiniol, a llawer yn ei chofio yn gweithio yn yr adran 'drapery' yn yr hen Co-op. Oherwydd llesgedd symudodd 18 mis yn ôl i Gartref Cerrig yr Afon, Y Felinheli.

Roedd yn aelod ffyddlon yn Eglwys Ebeneser, lle bu'n athrawes Ysgol Sul ar ddosbarth ieuencid ac oedolion am flynyddoedd. Yn 1997 derbyniodd Fedal Thomas Gee.

Cynhaliwyd ei hangladd fore Gwener, 3 Rhagfyr, gyda gwasanaeth cyhoeddus yn Ebeneser dan ofal ei gweinidog, y Parchg. John Pritchard, a rhoddwyd hi i orffwys ym mynwent Macpela.

Hasson, Caernarfon, am ei waith er budd y clwb.

Hefyd cyflwynwyd y canlynol: Tlws W. J. Williams am yr eog trymaf o ddyfroedd y gymdeithas i John Penny Williams, Waunfawr, gyda 'sgodyn 12 pwys 8 owns o Lyn Garnage, Afon Seiont.

Llyfyr Longest Cast i John Allam, Llanrug, fel gwerthfawrogiad ar ei ymddeoliad o fod yn Gyfarwyddwr y clwb a J. Vyrnwy Evans, Caernarfon, am ei waith trwyadl dros y blynyddoedd fel aelod o'r pwyllgor gwaith.

Trwy gloi fe hoffwn ddiolch i bawb am eu cefnogaeth dros y flwyddyn a dymuno i chwi oll Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Lwyddiannus a Thawel.

HUW PRICE HUGHES.

Ar Ben Arall y Lein

Amser tawel cyn belled ac y mae 'sgota yn y cwestiwn, ond parhau mae'r gwaith i uwchraddio'r cyfleusterau. Diolch o galon i'r criw bach sydd wrthi mor galed yn clirio ac agor llwybrau a mynediadau newydd i rai o fannau mwyaf anghysbell ein dyfroedd. Buasai mwy o gymorth yn dderbyniol ofnadwy gan fod y gwaith yn ddi-ddiwedd.

Gwaith arall fydd wedi dod i ben erbyn y rhifyn nesaf yw Melin y Cim, Pontllyfni. Rwy'n gobeithio y bydd lluniau ar gael erbyn y rhifyn nesaf. Peth sobor ydi pan mae rhywbeth yn digwydd i'r cyfrifiadur a'r holl system yn methu. Efallai bydd Siôn Corn wedi rhoi rhywbeth yn fy hosan i ddatrys y broblem. Un newydd efallai!!

Mae digon o siarad wedi bod am y Fclin ers dros ddwy flynedd bellach. Y dyletswydd rwy'n edrych ymlaen ato yw trefnu'r dodrefnu a thrafod cynllun llogi'r llyc.

Gwaith pleserus arall yr adeg yma o'r flwyddyn yw cerdded ychydig ar y glannau, ac eleni mae'n ardderchog gweld y nifer o bobl a sewin sy'n brysio hwrw cu grawn. Pan mae gweithgarwch fel hyn i'w weld mor glir ar Afon Peris, mae'n amlwg fod pethau wedi rhoi tro ar wella. Mawr yw'r diwyllt am dymor 2005.

Mae gwaith uwchraddio'r tanciau magu yn ncorfa Crawia wedi gorffen. Bydd felly yn bosib

cael gwell rheolaeth ar stocio Dywarchen yn ystod y tymor i ddod. Bwriedir, yn ystod Mawrth '05, brynu i mewn tua 1,500 o frithyll yr enfys, rhai rhwng pwys a phwys a hanner, stocio 200 yn union i Dywarchen at ddechrau'r tymor ar 1 Ebrill, yna stocio 200 yn fisol hyd at fis Medi. Erbyn hynny bydd y pysgod wedi cael tyfu i fod tua dau a thri phwys. Bydd y gweddill yn cael eu tyfu 'mlaen yn y ddeorfa er mwyn cael sylfaen dda o frithyll dros bedwar pwys i'w cynnwys gyda'r stoc newydd am 2006. Amser a ddengys sut y bydd hyn yn gweithio. Wrth gwrs nid oes sicrwydd pendant wrth fagu unrhyw anifail.

Nid pysgod yw'r unig beth sy'n tynnu sylw 'sgotwrs. Mae ganddynt diddordeb mewn popeth sy'n ymwneud â bywyd gwyllt, a thrwy ein rhocolacth gofalus o gynefinoedd glannau'r dyfroedd mae pob math o fywyd gwyllt yn llwyddo. Rhyw ychydig wythnosau'n ôl roedd dau ohonom yn eistedd ar y faine ger yr afon yn Crawia pan sylwais ar siâp 'U' yn symud yn y dŵr ac yn croesi'r afon. Well dyma greadur nad oeddwn wedi ei weld ers blynyddoedd lawer, sef llygoden y dŵr. Maent yn brin ofnadwy, ond nid yma.

Un o wyrthiau eraill natur sydd i'w weld yn ddyddiol yma yw glas y dorlan. Eisteddweh ar y faine sydd yn y maes parcio yn Crawia ac mi welwch yr adcryn

lliugar yma'n hedfan nifer o weithiau'n ddyddiol, yn ôl ac ymlaen o dan y bont. Roedd yn syndod imi faint o bobl sydd wedi ei weld am y tro cyntaf wrth sgwrsio yn y fan yma. Ond peidiwch a mynd yn agos i'w nyth, gan ei fod yn un o'r pethau mwyaf drevllyd dan haul

Un o greaduriaid mwyaf swil ein bro yw'r ci dŵr. Wrth stelcian ar ymylon Llyn Doctor neu ym Mhen llyn pan mae ar dywyllu yn ystod Mehefin a Gorffennaf, gellir ei weld. Man arall i'w weld heb ormod o drafferth yw Llyn Tan Pant, Llanberis.

Cynhaliwyd Pwyllgor Blynyddol y Gymdeithas ar 9 Rhagfyr, yn yr Institiwt, Caernarfon. Bydd codiad rhesymol ym mhrys tocynnau am 2005, a hefyd cyflwynwyd 'Tlws Tomi Lovell' i Carl

Gwesty Dolbadarn

LLANBERIS Ffôn: 870277



Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd dda oddi wrth Aneuryn a'r staff

CYNGOR CYMUNED LLANDDEINIOLEN

Cyfarfu'r Cyngor ar y 7ed o Ragfyr.

Gweddwyd i ddechrau'r Cyfarfod gan Richard Ll Jones.

Cofnodion, 2 Tachwedd

Cywirwyd Tan yr Allt i Tan y Coed, Penisa'rwaun.

Cyflwynodd Elspeth Mitcheson adroddiad manwl ar amryw o ddogfennau'r Cynulliad sy'n ymwneud â strwythurau rheoli a rôl Llywodraeth Leol i'r dyfodol. Len Jones yn anghytuno â syniad yr 'Un Siop'. Hefyd tuedd CAB yw os na fedrant gynnig ateb eu hunain nid oes ganddynt ychwaith y wybodaeth i gyfeirio'r cwestiwn i rywle arall.

Huw P Hughes - mae gwasanaethau elfennol yn dioddef ar draul gormod o gyrsiau hyfforddi.

Len Jones, mae Cyngor Gwynedd yn marcio lleoliadau cwynion â sér ar fap; mwya'r ser, cynta'i gyd y rhoir sylw i'r broblen.

Phyllis Ellis, nid yw'r Cynulliad yn gwneud y pethau a ddylent. Mae newidiadau i ddiwydd ym myd addysg. Bwriad Gwynedd oedd cynnal cyrsiau gwybodaeth am y newidiadau ond nid oedd gwybodaeth ar gael o'r Cynulliad mewn pryd.

Diolchwyd i Elsbeth Mitcheson am ei gwaith paratoi a'r cyflwyniad a agorodd drafodaeth werthfawr.

Awgrymodd Len Jones bod yr aelodau yn darllen dogfennau aml, hirwyntog a chymhleth y Cynulliad ar y naill yn lle bod y pwysau i gyd ar un.

Materion yn codi o'r Cofnodion

Glanhau Strydoedd. Cyflwynwyd archwiliad (3/11/04) Gwynedd yn dweud bod Tremeilian, Brynrefail a Bryntirion, Penisa'rwaun yn lân ond bod angen glanhau olion llifogydd ym Mryntirion.

Yr Heddlu. Derbyniwyd eglurhad mai i ffwrdd yn sâl y mae'r Heddwes Willdigg. Dywedodd Len Jones bod ei ardal yn fawr gan gynnwys Llanberis, Cwm y Glo, Deiniolen a Dinorwig ond er hynny pan ddiwydd rhyw beth mewn rhyw ardal arall gelwir ef i ffwrdd. Penderfynwyd amlygu hyn i'r Arolygydd Simon Davies.

Afzet Groeslon Isaf. Ateb Gwynedd mai gor-yrdd yw'r rheolwyr am y damweiniadau yno a'u bod wedi gwella'r arwyddion a'r marciau sffordd. Penderfynwyd cefnogi cais yr Heddlu am wyneb 'Anti Skid' yno.

Pont y Felin, Clwt y Bont. Cadarnhad Gwynedd bod arwydd 'man pasio' a llinell ildio wedi eu gosod. Cyscirtodd Len Jones at weddill yr adroddiad i Wynedd - bod angen ail-beintio'r llinellau gwyn ym mhen ucha Allt Sam. Penderfynwyd atgoffa Gwynedd.

Tom Eilian, Brynrefail/Cwm y Glo. Ateb Gwynedd nad oes cyllid i wneud llwybr troed yno ond bod modd i'r ysgol geisio am grant 'Llwybrau Diogel i'r Ysgol'. Penderfynwyd cefnogi cais yr ysgol mawr o lam. Cyfeiriodd Len

Jones at y rhan o'r daith yma sydd yn nhiriogaeth Cyngor Llanrug. Penderfynwyd hysbysu'r Cyngor hwnnw o'r ohebaith hyd yn hyn. **Y Comisiwn Ffiniau.** Cyfeiriodd y Clerc at lythyr (09/11/04) Alun Ffred Jones AC, yn dweud bod y comisiwn yn bwriadu symud y ffiniau er yr holl wrthwynebiadau lleol: 53 yn erbyn, 9 o blaid. Awgrym Alun Ffred oedd i'r Cyngor ysgrifennu at yr Ysgrifennydd Gwladol - y Gwir Anrhydeddus Peter Hain, gan mai ef fydd â'r gair olaf ar y mater cyn ei gyflwyno i'r Senedd. Gyda chaniatâd y Cadeirydd danfonodd y clerch gyfieithiad o adroddiad (27/01/04) y Cyngor i'r Ysg. Gwladol ar y 10ed o Dachwedd. **Gerlan, Clwt y Bont.** Llythyr Gwynedd eu bod am ail edrych ar y sefyllfa.

Cod Ymddygiad/datgan buddiant. Ateb Swyddog Priodoldeb Gwynedd yn cydnabod bod y Cod yn peri anhawsterau ond y gall aelodau wneud cais i'r Pwyllgor Safonau am ollyngiad. Trafodwyd hyn ac amlygwyd y gallai gollyngiad gymryd tua 6 wythnos. Penderfynwyd gofyn am hyn cyn trafod rhoddion 2005. **Maes Parcio Marchlyn Mawr/Teithwyr yn gwersylla yno.** Derbyniwyd ateb Cyfadran Adnoddau Gwynedd yn dweud nad ydynt yn gwybod pwy yw perchen y tir ac na fu erioed ym mherchnogaeth National Grid.

Bydd unrhyw gamau a all Gwynedd eu gwneud yn debygol o ddod o dan ddarpariaeth 'Deddf Cyfiawnder Troseddol a Threfn Gyhoeddus 1994' ac i'r perwyl yma bod yr holl ohebaith wedi ei ddanfoni i Adran Iechyd yr Amgylchedd. Atgoffwyd y Cyngor o ohebaithau ynglŷn â'r berchnogaeth ers blynyddoedd, heb lwyddiant.

Dywedodd Len Jones ei fod wedi gwario llawer o amser o un Swyddfa i'r llall yng Nghyngor Gwynedd ac yn y Grid Cenedlaethol yn ceisio datrys y mater. Dywedodd hefyd ei fod wedi rhoi rhifau cofrestru'r faniau a'r loriau i'r Heddlu ond 'does dim wedi ei wneud. Cyfeiriwyd hefyd at y ffaith eu bod yn cynnau tanau yno, hyd yn oed yn llosgi carafan - beth am y rhcolau llygredd? Dywedwyd o brofiad, pe bai rhywun arall o'r gymuned yn gadael carafan yn rhywle heblaw eu cwrtel eu hunain, y byddai'r Adran Gynllunio yn eu gorfodi i'w symud ar fyrder.

Gohebiaethau eraill

Afon Goch, Deiniolen. Cafwyd gwybodaeth gan ardalwyr Deiniolen yn ystod mis Tachwedd bod plant drwg yn cael eu cartrefu yno; un bachgen o Gaergybi. Ysgrifennodd y Clerc, ar ôl trafodaeth gyda Len Jones, at Kennaeth Gwasanaeth Cynllunio Gwynedd i ofyn pam nad oedd y Cyngor wedi cael gwybod am hyn ac a oes angen caniatâd cynllunio cyn sefydlu cartref o'r fath. Ar ôl

cysylltu â chynrychiolwyr y cartref dros y ffôn, ateb y swyddog oedd:

1. Cartref preifat i blant yw Afon Goch ac felly nid yw'n cael ei weinyddu gan Gyngor Gwynedd ond gan Arolygiaeth Safonau Gofal i Gymru o Fae Colwyn.
2. Dau blentyn a dau ofalwr yw'r nifer mwyaf sydd wedi aros yno ond maent yn ymwybodol y gellir cael i fyny i 6 person yno yn byw fel un teulu.
3. Yn yr wyth wythnos cyn i'r bachgen o Gaergybi ddod yno nid oedd unrhyw blentyn wedi aros yn yr eiddo.

Amlygwyd anfodlonrwydd ac amheuaeth o'r stori a ddywedwyd ar y ffôn, ni chafwyd ateb derbynol i gwyn flaenorol bod y tai allan wedi eu haddasu fel anheddau. Mae pum car yno yn aml. Penderfynwyd cysylltu â Mr Aled Gibbard o Gyngor Gwynedd ynglŷn â'r angen i gofrestru ac i gael mwy o wybodaeth gywir.

Rhaglen Gwaith Ffyrdd

Yn ystod mis Rhagfyr gwneir gwaith cynnal ar bont osgoi Brynrefail a hefyd 'dec' newydd ar bont Ty'n Gerddi, Deiniolen.

Adran Gwaith a Phensiynau Ar gais Mr Hywel Williams AS ysgrifennwyd at Y Gwir Anrhydeddus Alan Johnson i Whitehall i wrthwynebu bwriad y llywodraeth i gau swyddfa Thetford House, Porthmadog a chanoli prosesu ceisiadau i Wrecsam.

Lloches Bws i Rhiwlas.

Cyflwynwyd copi o lythyr Mr Iwan Evans, Pennaeth Cynllunio Gwynedd i Mr Hywel Williams AS yn ateb cais yr aelod am arosfan. Awgrymir yn y lythyr i'r Cyngor yma geisio cymorth ariannol o Gronfa Gwella Gwynedd gan mai cynnal a chadw cysgodfannau yw cyfrifoldeb arferol y Cyngor.

Cae Pella, Rhiwlas

Adroddodd Hefin Williams bod Ambiwlans wedi methu mynd yno oherwydd ceir yn parcio ac hefyd wedi methu troi'n ôl yn uwch i fyny am yr un rheswm.

Cyfeiriodd Elspeth Mitcheson at gais blaenorol am faes parcio yn yr ardal yma ohewrydd nifer y ceir. Penderfynwyd ar lythyr cŵyn i Wynedd, gan bwysicisio ar y perygl o'r Gwasanaeth Tân yn methu cyrraedd y lle.

Twmpathau cyflymder, Rhiwlas Cyfeiriodd Hefin Williams nad yw'r gwaith wedi ei orffen - llythyr i Wynedd.

Cynllunio

Ffin Llanberis/Llanddeiniolen. Derbyniwyd plan manwl oddi wrth Wynedd yn diffinio'r ffin. Dywedodd Len Jones ei bod yn bwysig atgoffa'r Adran Gynllunio o hyn pan fydd rhyw ddatblygiad yn y dyfodol. Awgrymwyd gofyn i'r Adran a yw holl adeiladau National Grid wedi eu lleoli yn y gymuned gywir.

Ceisiadau a ganiatawyd gan Wynedd:

Ncwidiadau: Bigil, Bethel. Mynedfa: Groeslon, Bethel.

Mynedfa: Monfa, Brynrefail. Adeilad cadw olew: Pen y Llyn, Brynrefail.

Tanciau Nwy: Bro Rhiwen, Rhiwlas.

Estyniad: 1 Cae Cerrig, Deiniolen. Estyniad: Cae Main, Deiniolen.

Llwybrau

Llwybr 107. Dros y Ffordd i Beran. Cyfeiriodd Len Jones at gyflwr drwg y llwybr yma unwaith eto. Gan nad oedd ateb o Wynedd i'r llythyr blaenorol penderfynwyd eu hatgoffa.

Corlan y Bont, Deiniolen. Dywedodd Dafydd Morris bod loriau Peters, contractiwr Tai Caradog yn difetha'r llwybr a bod gwteri yng ngwaelod 'Bateri' wedi eu cau o ganlyniad i'r gwaith. Awgrymodd Len Jones i'r Clerc gysylltu â Chlerc y gwaith yn Nhŷ Elidir.

Adroddiadau

Un llais i Gymru. Dywedodd Len Jones nad oedd ateb i'r un o'r cwestiynau a ofynnwyd yng Nghynadledau Blynyddol Cyngor Bro a Thref Cymru. Awgrymodd bwyso ar gael fforymau lleol.

Cwrs Un Llais Cymru i gynghorwyr newydd. Rhoddodd Pat Jones fraslun o'r cwrs yng Nghaernarfon. Gwariwyd y bore yn egluro'r Cod Ymddygiad ac yr oedd yn agoriad llygaid. Yn y prynhawn ffurfiwyd grwpiau trafod a chadeirydd i bob un. Roedd yn gwrs da, gwerth ei fynychu.

Bydd angen symud y fainc mileniwm o'i lleoliad presennol ym Methel gan bod y Cartref henoed yn cael ei newid i annedd preifat. Addawodd Huw P. Hughes ymholi ynglŷn â lleoliad ger y Bedol.

Adroddodd Dafydd Morris bod siop Clwt y Bont yn cau ond bydd y Post yn dal ar agor bob bore.

Cwrs Cymdeithas Clercod Llywodraethau Lleol

Mynychodd y Clerc y cwrs ar 'Cyllido a rheoli Prosiectau Cymunedol' yng Ngregynog ar y 18 o Dachwedd. Cafwyd cyflwyniadau gan bum person profiadol yn y maes o geisio am gymorth ariannol o bob math o ffynonellau. Bydd y wybodaeth a'r cysylltiadau ar gael gan y Clerc ar gyfer y Cyngor.

caban

Mae Prosiect Dylunio a Menter Eryri yn dymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'n holl denantiaid, cwsmeriaid a chefnogwyr.

I fwyta ac yfed mewn awyrgylch braf, dculuol, galweh acw!

YR HEN YSGOL, BRYNREFAIL
FFÔN: 01286 685462



BETHEL

Geraint Elis, Cilgeran. Ffôn: (01248) 670726

Camera yn ngofal Richard Ll. Jones, 5 Y Ddôl. Ffôn: (01248) 670115

DIOLCH. Dymuna Megan Humphreys a Liz Evans, trefnwyr cinio Clwb Bro Bethel am eleni, ddiolch yn fawr i Caroline a staff Y Bedol am y wledd ardderchog a'r croeso ac i'r holl fusnesau lleol a ffrindiau ym mro'r Eco a thu hwnt am eu haelioni, mewn arian a rhoddion at y raffl.

Diolch yn fawr a Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda.

DIOLCH. Dymuna Geraint ac Ann Parry, 3 Stad y Rhos, ddiolch o galon i bawb am bob arwydd o gydymdeimlad a ddangoswyd tuag atynt yn eu profedigaeth yn ddiweddar. Diolch am y cardiau, y galwadau ffôn, yr ymweliadau personol a'r rhoddion hael tuag at gronfa y clefyd Alzheimers. Casglwyd £450.

DYMUNIADAU GORAU am ben-blwydd hapus yn 80 oed i Nancy (Rhos Lyn) ar 30 Rhagfyr. Cariad mawr oddi wrth Trevor, Eluned, Brian, Sioned, Elwyn, Elen, Dewi, Anwen, Carol a'r teulu i gyd.

MERCHED Y WAWR. Cynhaliwyd cinio Nadolig y gangen yn yr Anglesey Arms, Porthaethwy, nos Fercher, 8 Rhagfyr.

Croesawyd yr aelodau i'r cinio gan y Llywydd, Rhian Hughes a dymunwyd yn dda i wŷr Nora gan nad ydi o wedi bod yn dda yn ddiweddar. Llongyfarchwyd Siôn Elwyn, mab Deilwen, am ysgrifennu darn o farddoniaeth fel rhan o gynllun Sgwad Sgwennu Gwynedd o dan arweiniad Iwan Llwyd. Arddangoswyd gwaith aelodau'r Sgwad yn y Festival Hall yn Llundain yn ddiweddar.

Mwynhawyd noson hynod o ddifyr ym Mhorthaethwy a chafwyd pryd o fwyd blasus iawn. Enillwyd y raffl gan Megan Jones, Glenys Griffith, Rhian Hughes a Gwyneth Jones.

NEWYDDION O'R YSGOL. Bu diwedd y tymor yn gyfnod prysur iawn eto eleni.

Nos Iau, 9 Rhagfyr, perfformiwyd sioe adran y Babanod 'Y Goeden Ryfedd' yng Nghapel y Cysegr. Cafwyd naws Nadoligaidd iawn a phawb yn mwynhau y perfformiad yn arw.

Diddanwyd rhieni, neiniau a theidiau'r plant Meithrin gyda chymorth y dosbarth Derbyn yn yr ysgol brawn dydd Mawrth.

Nos Lun a nos Fawrth, tra'r adran Iau oedd perfformio eu sioe i neuadd iawn o rieni a ffrindiau yn mwynhau'r ymweliad a'r planedau od.

Arron Hughes, Bl. 6, enillodd y

wobr o ddewis enw i'r sioe sef 'Gofod y Goreuon', a Manon Grail, Bl. 6, enillodd y wobwr am lunio poster a rhaglen y sioe.

Cafwyd Ffair Nadolig lwyddiannus iawn eto eleni wedi ei threfnu gan Gymdeithas Rieni ac Athrawon yr ysgol.

Mwynhaodd y plant y Panto 'Peter Pan' yn y Rhyl ddydd Mercher, a pharti ac ymweliad Siôn Corn ddydd Iau.

Dymuna'r pennaeth, y staff a'r plant Nadolig Llawen i bawb a diolch am eich cefnogaeth drwy'r flwyddyn.

CLWB BRO. Man cyfarfod y mis yma oedd Y Bedol, i ginio Nadolig y Clwb, a chroesawyd 40 o'r aelodau yno gan y Llywydd, Goronwy Jones. Mwynhaodd pawb eu cinio blasus iawn, a diolchwyd yn gynnes iawn i Elizabeth Evans a Megan Humphreys am ymgymeryd â'r holl drefniadau, ac hefyd am lwyddo i sicrhau nifer fawr iawn o wobrau i'r raffl, ac i bawb am gyfrannu tuag at y raffl. Aeth pob aelod adref gydag o leiaf un gwobr! Bydd y cyfarfod nesaf ar 4 Ionwr yn Festri Bethel.

CYMDEITHAS LENYDDOL. Yr aelodau oedd yng ngofal cyfarfod y mis yma a gynhaliwyd yn Festri Bethel. Croesawyd pawb gan y Llywydd, Jenkin Griffiths, a chafwyd eitemau llefaru, darlenniadau, deuawd a Pharti Canu ynghyd â chanu cynulleidfaol, yr oll yn cydfynd â neges y Nadolig. Llinos Williams oedd wedi trefnu'r cyfan a diolchwyd iddi am ei pharodrwydd i gasglu pawb ynghyd. Ar ddiwedd y noson cafwyd lluniaeth ysgafn wedi ei baratoi gan y merched, a bydd yr arian a dderbyniwyd ar y noson yn cael ei drosglwyddo i elusen. Dafydd Iwan fydd y gŵr gwadd yn y cyfarfod nesaf a hynny ar nos Fawrth, 18 Ionawr, yn Festri Bethel.

CAPEL Y CYSEGR. Fore Nadolig, cynhelir Gwasanaeth Cymun Undebol am 10.00 o dan arweiniad y gweiniodog, y Parch Dafydd Hughes. Cymerir rhan gan aelodau o Eglwys i'r cylch. Croeso cynnes i unrhyw un droi i mewn ac ymuno yn yr Oedfa arbennig hon.

DYMUNA Geraint ac Ann Parry, 3 Stad y Rhos, Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu, cymdogion a ffrindiau.

LLANBERIS

Gwyneth ac Eifion Roberts, Sŵn-y-Gwynt. Ffôn: 870740

DIOLCH. Gan na tyddaf yn anton cardiau Nadolig eleni dymunaf Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda, iawn bendithion Duw, i'm cymdogion a'm ffrindiau. Gofion cynnes atoch i gyd - Dilys Baylis, Meirionfa.

DYMUNA Hugh a Breda, 87 Maes Padarn, ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i'r teulu a ffrindiau i gyd gan na tyddant yn anton cardiau eleni. Hoffai Breda ddiolch yn fawr i bawb am eu caredigrwydd tra bu yn yr ysbyty ac ar ôl dod adref.

Atebion Cwis y Capeli

(tudalen 3)

- 1: Eglwys Sant Peris, Nant Peris
- 2: Eglwys Sant Padarn, Llanberis
- 3: Capel y Rhos, Llanrug
- 4: Capel y pentref, Caecathro
- 5: Capel Croes y Waun, Waunfawr

DMM



Nadolig Llawen

a

Blwyddyn Newydd Dda

oddi wrth bawb yn

DMM



www.dmmwales.com

RHOIDDION

£20: Er cof am Mrs Elizabeth Mary Williams, Cerrig yr Afon, gynt o Tegfryn, 13 Ffordd Deiniol, Deiniolen.

£10: gan y teulu er cof am Mrs Katie Williams, 8 Llys y Gwynt, Penisarwaun.

£5: Mathew Phillips, Waen, Penisarwaun; Mrs Dilys Baylis, Meirionfa, Llanberis; Hugh a Breda, 87 Maes Padarn, Llanberis.

£3: Mrs Ceridwen Williams, 25 Hafan Elan, Llanrug.

£2: Clwb Bro Bethel.

RHOIDDION

(ni chofnodwyd hwy fis dwetha)

£5: Rhodd gan Miss Katie Roberts, Stad Tref Eilian, Waunfawr; Rhodd gan deulu Dolydd, Stad Tŷ Hen, Waunfawr; Y Cynghorydd Trevor O. Edwards, Llanberis.



Jones

Contractwyr Trydan

Goleuadau Argyfwng ac offer Larwm Tân

Gwasanaeth i Cymru Cyfan

Aelod o

NICEIC

Contractwyr Trydan Eisteddfod yr Urdd a'r Genedlaethol

&

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda

Whitehead Cyf.

Prif swyddfa

Penrall, Tregarth, Gwynedd

Ffôn: 01248 601257

Ffôn (nos):

01248 600477 a 601011

Ffacs: 01248 601982



Cefnogwch ein Hysbysebwy

Nadolig Llawen a Blwyddyn

Newydd Dda

i'n holl ddarllenwyr

TROI BWYTY YN SIOP GROSER

Wedi deufis o waith caled mae Kevin a Catrin Davies wedi troi Bwyty'r Caban ar Stryd Fawr Llanberis yn siop groser hwylus i drigolion y cylch. Gobeithiant gyflogi hyd at 20 o bobl yn llawn neu ran amser.

Dan yr enw 'Costcutter' mae'r siop newydd yn gwerthu pob math o nwyddau groser, papurau newydd, diodydd, sigarêts, tocynnau trydan a ffôn. Yno hefyd gellir llogi DVDs a chasetiau fideo.

Meddai un o'r cyfarwyddwyr, Gareth Evens, 'Mae pobl yn

falch iawn o'n gweld ni'n agor a chynnig rhagor o ddewis i bobl yr ardal. Roedd o'n waith caled gorffen pob dim mewn pryd i agor ar 10 Rhagfyr, ond mae popeth bellach yn ei le!'

'Bydd y siop ar agor o 7am-10pm, saith diwrnod yr wythnos. Yn ogystal â nwyddau Costcutter, rydym hefyd yn gwerthu cynnyrch lleol fel llefrith, bara a chig. Mae gennym gownter 'Bake'n Bite' sy'n gwerthu roliau a brechdanau blasus - gwasanaeth sydd eisoes yn boblogaidd iawn.'



Gareth Owen a Gareth Evens yn syrffio cwsmer yn y siop newydd.

Ymwelwch â Chasgliadau Cenedlaethol Cymru AM DDIM!

AMGUEDDFA LECHI CYMRU LLANBERIS



NADOLIG LLAWEN I DDARLLENWYR ECO'R WYDDFA
GAN HOLL STAFF AMGUEDDFA LECHI CYMRU LLANBERIS

Mae'r Amgueddfa ar agor drwy gydol y gaeaf
Dydd Sul - Dydd Gwener 10am - 4pm

01286 870630 llechi@aocc.ac.uk www.aocc.ac.uk

AMGUEDDFEYDD AC ORIELAU CENEDLAETHOL CYMRU



Llythyr

61 Rhodfa'r Parc
Wrecsam LL12 7AW

Annwyl Olygydd

Rwyf ar ganol ysgrifennu hanes fy nheulu, sydd yn wreiddiol o Lanberis a Llanrug. Mi hoffwn ddod i gysylltiad ag unrhyw un sydd yn cofio fy nhaid, Owen Williams (12 Vaynol Cottages, Llanberis), chwarelwr yn Ninorwig a fu farw yn 1950, a fy hen daid, Henry Parry Williams o Arfon Terrace, Llanrug, a fu farw yn 1944 - tad Mrs Annie

Catherine Williams (fy nain, a oedd yn byw yn 12 Vaynol Cottages, Llanberis), Mrs Mary Griffiths (Snowdon Street, Llanberis), Idris Tudor Williams (a fu farw mewn damwain ar foto-beic yn 1938), Thomas Henry Williams (aeth i fyw i Benmaen-mawr) a Robert Williams.

Mi fyddwn yn ddiolchgar am unrhyw wybodaeth amdanynt neu am rai eraill o'r teulu.

ALISTER WILLIAMS

• Papurau Newydd

• Bwyd a Diod

• 'Off Licence'

• Roliau a brechdanau poeth *Bake'n Bite*

• DVD's a Fideo

• Ar agor 7am - 10pm bob dydd

Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda i bawb oddi wrth

KEVIN a CATRIN DAVIES a phawb yn Siop Newydd

Costcutter

LLANBERIS

Stryd Fawr Llanberis
(01286) 870434

Edrychwn ymlaen at eich gwasanaethu drwy gydol 2005

DODREFN PERKINS

SÊLY GAEAF

Gwasanaeth Mesur a Ffitio

yn dechrau am 10a.m.
Dydd Mercher, Rhagfyr 29

2 Canolfan Pen-llyn, Caernarfon, Ffôn: (01286) 676040
Yn ogystal â dodrefn, cofiwch hefyd am ein dewis mawr
o GARPEDI; LLENNI a LLORIAU PREN

NADOLIG LLAWEN A BLWYDDYN NEWYDD DDA I BAWB

Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda
i'n holl gwsmeriaid ac i bawb ym mro
Eco'r Wyddfa oddi wrth bawb ym
musnes llefrith

**EIRWYN
WILLIAMS
LLWYNCOED
CWM-Y-GLO**

Ffôn: (01286) 870563

Diolch am eich cefnogaeth
twy'r flwyddyn



STEPHEN JONES

+ Trefnwr Angladdau
Llanberis ac Ardal yr Eco

(01286) 870 870
(01286) 872 491
(07770) 265 976

Cwmni Annibynnol Lleol Profiadol
Nadolig Llawn a
Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Dodrefn Da am Bris Discount
THE SALES HALL
Y NEUADD ARWERTHIANT
CWM-Y-GLO
Ffôn: 01286 879060

Gwelyau • Matresi • Wardrobs • Cadeiriau a
Byrddau • Cypyrddau • Byrddau Coffi a mwy,
Eitemau catalog a ddychwelwyd (newydd) a
'Seconds' Ffatrioedd am brisiau rhad dros ben.
At Agor: LLUN - SADRWN 10.30 - 5p.m.
Nadolig Llawn a Blwyddyn Newydd Dda i bawb

Nadolig Llawn a
Blwyddyn Newydd
Dda oddi wrth

Richard S. Humphreys



**ORIEL
CWM
Cwm-y-glo**

Ffôn/Ffacs: (01286) 870882

Gwasanaeth Fframio

Lluniau o bob math ar gael ar y safle

Prisiau Rhwymol

Arddangosfa o luniau gwyddiol
gan Artistiaid Lleol

1. David Davies a David Roberts
(anab)
2. Valencia
3. Becky Brewerton
4. Henllys Hall, Baron Hill
5. Iwan
6. Glasgow, Caeredin, Y Gororau
7. Munster
8. Marsilles
9. Yr Armanin
10. John Derrick
11. Swydd Hampshire
12. Copa del Rei
13. Nid oedd wedi chwarae i
Gymru
14. Bae Cemaes, Trelynon, Mold
Alex, Conwy, Y Fflint
15. Criced (Seland Newydd)

**ATEBION Y
CWIS CHWARAEON**

CHWARAEON



Y teirw yn y fro



Ers 1905 mae 'Teirw Duon' Seland Newydd wedi ymweld â Chymru. Dyma wir un o draddodiadau'r byd rygbi. Mae pob gêm wedi gadael ei hatgofion - cais dilys neu beidio yn 1905; trawsgic Clem Thomas; y neidio allan o'r llinell, a'r gêm ryfeddol pythefnos yn ôl. Ai'r gêm yma - er ein methiant agos - fydd yn tanio hyder ac yn ein hail gyflwyno i'n ffordd gynhenid o chwarae?

Tra roedd tîm Graham Henry yn cyflawni taith ddiguro yn Ewrop, roedd tîm dan 21 Seland Newydd hefyd ar daith. Roeddent hwythau yn ddiguro

pan gyrhaeddwyd Cymru, ar ôl buddugoliaethau yng Nghanada a Lloegr. Trefnwyd gêm iddynt yma yn y gogledd, yn erbyn y tîm dan 24. Denwyd torf o 3,000 i faes rygbi Bangor a chafwyd chwip o gêm, gyda'r ymwelwyr yn crafu trwodd 15-11 ar y diwedd. Roedd hyn yn hysbyseb gwych i ddatblygiad y gêm yn y gogledd.

Buont yn aros yma am ychydig ddyddiau ac un o'r mannau yr ymwelwyd ag o oedd yr Amgueddfa Lechi yn Llanberis. Yna cafwyd 'stop' am bryd o fwyd a thorri syched yn nhafarn y Gors Bach. Efallai eu bod wedi camgymeryd Wil am

un o arwyr eu gorffennol agos, Sean Fitzpatrick. Ar y bwrdd llechan ger y bar, fe naddodd nifer ohonynt eu henwau. Pwy ŵyr, efallai y byddwn yn cyfeirio at un o sêr y dyfodol rhyw ddydd.

Ar y mur erbyn hyn mae'r llun uchod, a phob aelod wedi ei arwyddo. Gyda llaw, sylwch ar yr un yn y rhes flaen â'i dafod allan - cyfarchiad naturiol y Maori. Dyma 'Jimmy' Umanga, ac mae ei gefnder eisioes yn seren yn nhim y Teirw Duon. Tybed a welwn ni rai o'r chwaraewyr ieuanc yma yn herio'r Llewod yr haf nesaf.

Gwir Bencampwraig



Roeddwn yn hynod o falch mai Tanny Gray-Thompson a enillodd dlws Personoliaeth Chwaraeon BBC Cymru. Dyma bencampwraig yng ngwir ystaf y gair. Pwy all amau ei phersonoliaeth a'i phresemoldob, ac mae hefyd yn herson mor ddiymhongar.

Erbyn y byddwch chwi yn darllen y llith yma, cfallai y bydd wedi cipio dwbl rhyfeddol, drwy gipio'r tlws ar gyfer Prydain gyfan hefyd.

Cefais y ffrainc o'i chyfarfod pan ddaeth fel person gwadd i gyflwyno'r tlysau yn Noson Wobrwyo Arfon ychydig

flynyddoedd yn ôl. Roedd ei phersonoliaeth, ei gonestrwydd a'i chryfder mewnol yn agweddau a oleudd y noson. Mae un dyfyniad ganddi wedi aros yn y cof.

'Pob tro rwyf yn mynd ar y trac, rwy'n benderfynol o ddangos beth y gall pobl anabl ei gyflawni, nid be na allant ei gyflawni.'

Yn sicr, dyma neges gyfoes i nifer o'n sefydliadau sydd yn peri i bobl ganolbwyntio ar eu gwendidau yn hytrach na'u cryfderau. Gobeithio y bydd ymroddiad anhygoel y ferch yma yn symbyliad i bob un ohonom ym myd y campau - yn abl ac anabl.

Tanny

Mac'r dur ym mēr y dewrion - yn herio

A'u gyrru'i cithafion.
Undarn â haearn yw hon,
Hi ci hun yw'r olwynion.

Ymddiheuriad

Ie, sach lliain a lludw i'r Golygydd Chwaraeon y mis yma. Efallai i chwi sylwi fy mod wedi trosglwyddo Matthew Philips o glwb Llanrug i glwb tref Caernarfon. Efallai rhyw ddiwrnod y bydd y chwaraewr ifanc dawnus hwn yn dangos ei sgiliau yn y Gyngghair Genedlaethol ond ar hyn o bryd, mae'n aelod selog o dim cyntaf Llanrug. Ymddiheuraf am y gwall, ac rwyf eisioes wedi ymddiheuro i Matthew a phwyllgor clwb Llanrug.

Efallai'n wir fod fy nghamgymeriad wedi symbylu y tîm i guro Bethesda, ceffylau blaen yr adran, ar faes gwych Parc Meurig. Gobeithio y bydd y canlyniad yn rhoi hyder i'r tîm, ac y bydd y colledion agos yn troi yn fuddugoliaethau.

Cwis Nadolig yr Eco

1. Pa ddau Ddafydd Cymreig enillodd fedalau mewn pyllau Olympaidd yr haf diwethaf?
2. Pa glwb pêl-droed mae Claudio Ranieri yn ei reoli?
3. Pa olffwraig ifanc o'r gogledd sydd wedi cael cychwyn da i'w gyrfa broffesiynol?
4. Beth yw enw'r ddau gwrsgolff yn ardal Biwmares?
5. Y mae un chwaraewr pêl-droed rhyngwladol wedi sgorio 100 gôl i'w wlad. Pa wlad?
6. Sawl tîm rygbi o'r Alban sy'n cystadlu yn y Gyngghair Geltaidd? Enwch nhw.
7. I pa dalaith yn yr Iwerddon mae Ronan O'Gara yn chwarae?
8. Collodd Ffrainc gêm rhyngwladol rygbi am y tro cyntaf ym mhle yn ddiweddar?
9. Pwy oedd eu gwrthwynebwyr?
10. Pwy yw hyfforddwr tîm criced Morgannwg?
11. Pa sir criced dosbarth cyntaf sy'n chwarae ar y Rose Bowl?
12. Beth yw enw swyddogol Cystadleuaeth y Cwpan Pêl-droed yn Sbaen?
13. Beth oedd yn arbennig pan enillodd Derek Quinell ei gap cyntaf i'r Llewod?
14. Mae pum tîm o'r gogledd wedi disgyn o'r Gyngghair Genedlaethol Bêl-droed ers y cychwyn. Enwch nhw?
15. Pa gêm a chwaraeir ar y Basin Reserve?

(Atebion i'w gweld ar dudalen 27)

CYFARCHION YR WYL

Cymcraf y cyflc i ddymuno Nadolig Llawen a Blwyddyn Newydd Dda a heddychlon i bob un ohonoch, gan ddiolch a gobeithio am eich cefnogaeth yn 2005.

